CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 285 - 60c
Gorffennaf 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Carnifal Cwmann

Tudalen 2

Cadwyn cyfrinachau yr ifanc

Tudalen 14

Llwyddiant yn Llanerchaeron

Tudalen: 12

Aelodau C.Ff.I. Bro'r Dderi a ddaeth yn gydradd 1af gyda C.Ff.I. Pontsian yn Niwrnod Chwaraeon C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd ar gaeau Ysgol Gyfun Llambed yn ddiweddar.

Rali Cffi Ceredigion a gynhaliwyd ar fferm Gwarfelin, Llanrhystyd ar Sadwrn Mai 22ain. Brenhines y Rali oedd Sara Downes, Llangeitho, a'i morwynion Meira Lloyd, Llangeitho; Teleri Morris-Thomas, Pontsian; Gwennan Davies, Llanwenog a Caryl Haf, Llanddewi Brefi. Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn yw Wyn Thomas, Pontsian.

Torri'r gacen yn Nawns Dathlu hanner canrif Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann – Meinir Evans, Llywydd Presennol y Clwb; Lowri Jones, un o'r aelodau ifancaf; Aneurin Jones, Cadeirydd cyntaf y clwb a Louise Jones, Cadeirydd presennol y clwb.

Digwyddiadau gyda'r C.Ff.I.

Ar noson y Ddawns Fawr yng Ngholeg Llambed i ddathlu hanner canrif Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann, tynnwyd y llun hwn i nodi'r achlysur, gan gynnwys rhai o'r aelodau cynharaf, aelodau dros y blynyddoedd a'r aelodau presennol.

Cylchoedd Ti a Fi yn rhagori . . . .

Cylch Ti a Fi Plantos Bach, Cwmann yn derbyn "Y Cylch Ti a Fi Rhagorol", sef tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

Cylch Ti a Fi Llanllwni sydd newydd dderbyn statws Cylch Ti a Fi Rhagorol am eu bod yn cynnig safon uchel o wasanaeth, gofal ac addysg o ansawdd arbennig.

Carnifal Cwmann a llwyddiannau eraill yr ardal

Cymeriad gorau 6 ac o dan 8 oed 1af Beca Jones fel 'British Airways on strike'

Cymeriad gorau dan 4 oed – Osian Jones fel Ein Arwr.

Llywydd Harold Williams yn coroni'r Frenhines Sophie Bowden yng Ngharnifal Cwmann. Y morwynion oedd Chloe Chester a Sara Jones. Gweision bach oedd Iestyn Plant ac Osian Roberts.

Mabolgampau Ysgol Llanwnnen – Ffion Jenkins a Cerian Jenkins, Capteiniaid y tŷ buddugol yn derbyn cwpan oddi wrth Lynwen Holmes, Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Llwyddiant ysgubol i Grŵp cyflwyno a thrafod Ysgol Gynradd Wirfoddol Cymorthedig Llanwenog a wnaeth gynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Cwis Llyfrau Cymru i flynyddoedd 3 a 4. Daeth y grŵp cyflwyno yn gyntaf dros Gymru gan ennill Tlws Coffa Anwen Tydu. Daeth y grŵp trafod yn ail hefyd a'r tîm cyfan yn ennill yr ail. Aelodau'r tîm oedd (o'r chwith) Jac Evans, Gwen Thomas, Osian Davies, Lowri Davies, Katie Brown, Michael Roach, Sioned Fflur Davies a'r cadno Emma Herbert, a Rhys Evans sydd yn absennol o'r llun.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Gorffennaf: a Medi	Marian Morgan, Glasfryn, Drefach	480490
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gormod o bwdin.....

Ydy, mae'r dywediad yn ddigon cyfarwydd i bob yr un ohonom. Ie 'Pêl Droed' sydd yn fy meddwl ar hyn o bryd! Nid wyf yn bêl droediwr, ond rwy'n hoffi gwylio gêm gystadleuol dda. Un peth yw gwylio awr a hanner o chwarae heb orfod dioddef beirniaid yn siarad am awr cyn dechrau'r gêm ac am amser wedyn!! Ydych chi yn hoffi'r sŵn? Y chwythu di ben draw drwy gydol y gêm. Mae'n swnio fel tase nhw'n chwarae mewn cwch gwenyn. Rwy'n disgwyl clywed Lloegr yn chwilio am esgus dros y chwarae diflas. Beth fydd e? Tybed ai'r sŵn gaiff y bai? Chwarae teg i'r pêl droedwyr, mae'r sŵn yn brysur fynd ar fy nerfau i. Does dim rhaid gwylio, mae botymau eraill ar y teledu.

Gŵydd dew!

Mae'n bell o'r Nadolig i ddechrau sôn am wyddau ond fe welais wydd mewn oergell mewn siop fferm yn perthyn i blasdy mawr yng nghanol swydd Derby. Meddyliais am ffermwyr ardal 'Clonc' – dyma fyddai'n werth arall gyfeirio. Peth pwysig i'w gofio oedd pris yr wydd.

£112 – ie! Oedd, yr oedd yn wydd wedi'i pharatoi yn barod i'r popty, dim angen gwneud dim iddi ond ei choginio. Sut oedd hi'n costio cymaint? Y stwffin rwy'n credu. Roedd hi'n llawn o gig carw – dyna'r rheswm am y pris. Naddo, brynais i ddim ohoni – er fe fuaswn wedi mwynhau cael ei blasu. Roedd y ffordd

yn bell a'r tywydd yn rhy dwym i'w chario yn y car. Dyna ddywedai beth bynnag!!

Eisteddfod Dda!

Roedd Llanerchaeron yn llwyddiant ysgubol fel lleoliad y 'Steddfod. Roedd trefniant y teithio yn arbennig o dda ac yn rhwydd mynd i mewn ac allan o'r maes. Welsoch chi rhywun meddw ar y cae? Trueni fod cymaint o sylw'r cyfryngau wedi canolbwyntio ar drafod hwn i syrffed. Bu'r tywydd yn arbennig o dda ar wahân i Ddydd Mawrth a hwyr Nos Sadwrn. Gobeithio y caiff y Sioe Frenhinol dywydd wrth ei bodd hefyd.

Gwnaeth Sir Aberteifi yn arbennig o dda, safon y cystadlu a'r cyngherddau.

Mae llawer o ysgolion y sir o dan anfantais mae dim ond un cystadleuydd sydd yn cael cymryd rhan yn yr Eisteddfod. Un gwraig yn benderfynol ar ddiwedd ryw gystadleuaeth y gallai tri pharti o Sir Aberteifi fod wedi bod ar y llwyfan yn ôl safon y 'Steddfod Sir. Dim fi sy'n dweud hyn, am nad wy'n feirniad.

'Bro'

Cafodd y dre dipyn o gyhoeddusrwydd yn sgil rhaglen Siân Cothi a Iolo Williams. Cawsom ni ein twyllo'n llwyr gan ein bod ar y ffordd i'r dre. Gorfod i ni stopio o flaen Hafan Deg wrth i'r goets ddod i'n cyfarfod. Dyma fi yn barchus iawn yn tynnu fy nghap i ffwrdd gan i mi feddwl mai angladd oedd ar y ffordd! Un feirniadaeth glywais oedd fod y rhaglen yn rhy fyr ac fe hoffai llawer weld mwy o Lambed. Rhaid cofio fod y rhaglen yn cael ei dangos dros Gymru gyfan ac mae'n rhaid bod yn gynnil wedyn. Gwyliau dedwydd - a gyrrwch yn ofalus.

CLONCYN

Ffarmers

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwennan Evans, Glasdir ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron yn ddiweddar. Daeth Gwennan yn ail yng nghystadleuaeth y goron gyda thair stori fer. Mae Gwennan ar hyn o bryd yn astudio am radd uwch yn y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd, ac fe glywir ei llais o bryd i'w gilydd ar Radio Cymru yn cyflwyno rhagolygon y tywydd.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Ethel Davies, Llys Helen ar ddathlu penblwydd go arbennig yn ddiweddar. Fe wnaeth Ethel yn glir wrth gyrraedd y garreg filltir yma nad oedd am unrhyw anrhegion, ond 'roedd wedi trefnu raffl ar noson ei pharti penblwydd yn Y Drovers, a chasglwyd £300 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, elusen deilwng iawn. Yn y llun, gwelir Ethel yn cyflwyno'r arian i gynrychiolydd o'r elusen. Estynnwn ein cyfarchion i eraill yn yr ardal sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar, sef Iris Evans, Maesuchaf; Irwel Jones, Buarth yr oen; a Liz Thomas, Penywaun. Penblwydd hapus i'r pedwar ohonoch.

Cyfarchion

Llongyfarchiadau gwresog i Rhodri Gomer Davies, Troed y bryn a Carys Huws ar eu dyweddïad. Mae Rhodri yn chwarae rygbi i dîm Dreigiau Casnewydd Gwent, ac mae Carys yn athrawes yn Ysgol Y Wern, Caerdydd, ac yn ferch i'r Dr Dafydd a Mrs Rhian Huws, Y Ffwrnais Blwm, Caerffili. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Marchnad Ffermwyr

Bu'r Farchnad Ffermwyr a gynhaliwyd yn Neuadd Bro Fana ar y 5ed o Fehefin yn llwyddiant mawr gyda nifer o stondinau amrywiol, a chefnogaeth dda gan drigolion y gymdogaeth. Cynhelir y farchnad nesaf ar y 3ydd o Orffennaf rhwng 10.00 y bore ac 1.00 y prynhawn, ac ar y Sadwrn cyntaf o'r mis o hynny 'mlaen. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn dod â stondin, cysylltwch gyda Gwyneth Richards ar 01558 650276.

Dartathon ac Ocsiwn

Mae aelodau o gyngor y Neuadd wrthi ar hyn o bryd yn trefnu Dartathon ac Ocsiwn a gynhelir yn Y Drovers Arms ar ddydd Sadwrn, y 7fed o Awst. Y bwriad yw bwrw ati i chwarae dartiau drwy'r dydd, a chwblhau y noson gydag ocsiwn. Yn barod, mae yna amrywiaeth eang a diddorol o eitemau wedi eu addo ar gyfer yr ocsiwn. Gwnewch nodyn yn y dyddiadur.

Carnifal a Mabolgampau Bro Fana

Cynhelir y Carnifal a Mabolgampau blynyddol eleni ar y 14eg o Awst. Am fanylion llawn, cysylltwch ag Ethel Davies ar 01558 650412. Llywyddion y dydd eleni fydd Alun ac Aileen Davies, Pencader. Mae Aileen yn

adnabyddus yn lleol fel 'Aileen Ynysau', a braf cael cyfle i groesawu Aileen a'i phriod i'r digwyddiad blynyddol yma gan fod ganddi gysylltiadau teuluol cryf â'r ardal.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

GORFFENNAF

2 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen am 4:00y.p. Agorir gan Mrs Ray Thomas, Berllan.
2 Helfa Drysor Eglwys Llanwenog, dechrau o'r eglwys rhwng 6 a 6.30y.h.
3 Cangen NSPCC Llanybydder yn trefnu Dawns Haf yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, am 7.30y.h. Tocynnau ar gael wrth Ann Smith 01570 480306 neu Linda Davies 01570 480054. Yr elw yn mynd tuag at yr NSPCC.
3 Band 'Free Beer' a Dai Jenkins yn Llew Du Llanybydder am 8y.h. Tocyn £6. Elw tuag at Ysgol Llanllwni.
4 Cyngerdd gan Gôr Meibion Llanymddyfri yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi am 7:30y.h. Elw tuag at y capel.
4 Cwmni Cydweithredol Troedyrhiw yn perfformio 'Diwedd y Byd' yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7:30y.h.
5 Gwasanaeth Trwyddedu Suzie Bale yn Eglwys Llanwenog.
9 Ffair Cardis ym Mart Llanybydder. Sioe gwartheg a defaid am 5:00y.h. ac yna Rhostio Mochyn, stondinau i blant ac arddangosfa am 6:00y.h. Llywydd y nos fydd Picton Jones, Llanwnnen. Mynediad - oedolion £5 a phlant cynradd am ddim. Am rhagor o fanylion ffoniwch Heather 01570 480599.
10 Mabolgampau Cwrtnewydd ar gae'r ysgol am 1:00y.p. Croeso cynnes i bawb.
10 Diwrnod Hwyl, Cartref Nyrsio Alltymynydd, i ddechrau am 12y.p. Cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn, Sioe Gŵn, stondinau amrywiol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r cartref ar 01570 480208.
11 Taith Gerdded a Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen yng Nghae Pentref Cwmann. Y daith i ddechrau am 1.00yp.
17 Gŵyl y Pentref yn Llanfair Clydogau.
19 – 22 Sioe Frenhinol Cymru – Sioe'r Cardis.
24 Ffair Fwyd Llambed.
30 C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal 'It's a Knockout' ar gaeau Glanafon.

AWST

6,7,8 Gŵyl Flodau Eglwys Llanwenog.
7 Dartathon ac Ocsiwn yn Y Drovers Arms, Pumsaint.
8 Cymanfa Ganu yn Eglwys Llanwenog 'Ein Hoff Emynau' am 7.00 y.h. Arweinydd Manon Richards.
13 Sioe Llambed.
14 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
14 Carnifal a Mabolgampau Bro Fana, Ffarmers.
21 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I Llanwenog.
27 – 30 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambed.
30 Sioe Flynyddol Llanllwni ar gaeau Abercwm.

MEDI

4 Sioe Llandysul.
4 Sioe Llanycrwys.
5 "Parti Ffarwelio ag Annedd" yn yr Annedd am 3:00y.p.
11 Ffair Ram, Cwmann ar gae'r pentref.
13 Cynhelir Noson Agored gan Fercherd y Wawr Llambed yng nghwmni Rhian Morgan a Llio Silyn yn Festri Shiloh Llambed am 7.30yh. Croseo cynnes i bawb.

HYDREF

1 Noson Moes a Phryn dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn yn Festri Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h.
2 Noson yn y Llew Du, Llanybydder yng nghwmni'r grŵp Jac Y Do a Don Davies, Comediwr. Yr elw tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a Sclereosis Ymledol. [MS].
7 Sioe Ffasiwn gan Ededa J yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn. Elw tuag at Sioe'r Cardis.
11 Pwyllgor Henoed Llanllwni yn cynnal 'Bingo' yn y Neuadd Gymunedol.
16 Cystadleuaeth Bryn Terfel – Urdd Gobaith Cymru ym Mhafiliwn Bontrhydfendigaid.
21 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h. Pregethir gan y Parch Alun-Wyn Dafis, Cei Newydd.

TACHWEDD

13 Gŵyl Cerdd Dant Glannau Menai ym Mhrifysgol Bangor.
13 Diwrnod Agored Eglwys Llanwenog 'Paned a Chlonc' 2.00 - 5.30.
20 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Fawr, Aberystwyth.

Bag Papurau Bro

am ddim i'r 100 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.

CEFNOGI CLONC 2010

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . .

Cangen / Branch . . . .

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . .

. . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./2010

Arwyddwyd / Signed . . . . . .

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.

**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw: . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664

CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math a pharatoi eich car ar gyfer MOT

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni

Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

Lle aeth pawb?

Chris Hallam a John Harries yn gwthio cadair olwyn drwy Gymru yn 1987 ar eu ffordd yn Stryd y Bont, Llambed er mwyn codi arian i Ganolfan Chwaraeon i'r Anabl yng Nghaerdydd, gyda'r Cyng Dorothy Williams y Maer ar y pryd, rhai o ddiffoddwyr tân Llambed a phlant y dref yn eu cefnogi ar eu taith. Diddorol yw gweld blaenau'r siopau wedi newid dros y blynyddoedd. Os oes gennych hen lun a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr Clonc, ebostiwch golygydd@clonc.co.uk

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn

Efallai i chi gofio imi fod yn feirniadol nôl ym mis Ebrill o 'Newyddion Cymuned', y papur a ddosberthir am ddim gan Gyngor Sir Gâr i bob cartref yn Sir Gaerfyrddin. Yr hyn oedd yn drawiadol am y rhifyn hwnnw oedd bod dewin dweud y Cyngor wedi dewis geiriau hollol sebonllyd fel 'perffaith' a 'gwych' ac 'ardderchog' i ddisgrifio gweithgareddau'r cyngor. Geiriau nad ydym ni'r trethdalwyr yn arfer eu cysylltu â gwasanaethau Cyngor Sir Gâr.

Ddechrau'r wythnos cyrhaeddodd rhifyn Mehefin-Gorffenaf o'r un papur. A dyw e ddim wedi gwella dim. O'i ddarllen, fe gredech ei bod hi'n haf ar hyd y flwyddyn yn Sir Gâr a'r haul yn gwenu gydol y dydd ar holl weithgarwch y Cyngor Sir.

'Hwyl yr haf' yw prif thema colofn yr arweinydd. Ac yng nghrombil y papur ceir brawl am raligamps hwnt ac yma ar draws y sir. Ond does neb wedi beiddio crybwyll y bwndel o gymylau annifyr sy'n casglu ar y gorwel. A daeth yn amlwg erbyn hyn mai anallu clymblaid yr Annibynwyr-Llafur yw'r cwmwl mwyaf bygythiol o ddigon sy'n taflu ei gysgod dros wasanaethau yn Sir Gaerfyrddin.

A Chyngor Sir Caerfyrddin yn wynebu arbed ryw £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf, maen nhw wrthi'n blaengynllunio ar gyfer arbedion. Rhan o'r blaengynllunio yw cynnal seminarau i Aelodau er mwyn clustnodi arbedion posibl. Arbedion iddyn nhw yw toriadau i chi a fi.

Mae hyn yn codi sawl cwestiwn diddorol. Yn y lle cyntaf rhaid holi pam mae'r blaengynllunio yn cael ei wneud mor hwyr yn y dydd yn Sir Gaerfyrddin a'r wasgfa ariannol eisoes ar ein pennau. Onid yw cynllunio ar gyfer y dyfodol yn weithgarwch a ddylai fod yn barhaus ar frig agenda pob pwyllgor ac o flaen llygaid pob prif swyddog? Dim ond gofyn y cwestiwn.

Cwestiwn diddorol arall yw pam nad yw cadeiryddion pwyllgorau craffu wedi deall bod blaengynllunio yn sylfaenol i ffyniant pob gwasanaeth effeithiol. Mae'r ateb i hynny'n ddigon amlwg. Fedran nhw ddim. Mae cadeiryddion y pwyllgorau hyn wedi'u fflipio o fod yn is-gadeiryddion i fod yn gadeiryddion; a'r cyn gadeirydd wedi'i fflipio'n is-gadeirydd. Dyma'r strategaeth lwgr beryglus sydd wedi cadw Meryl Gravell mewn grym cyhyd ac wedi sicrhau lwfansau bras i'w chefnogwyr. Wiw iddi newid yr un iot ar hyn neu fe chwelir ei chefnogwyr fel cwmwl ar flaen y gwynt. Mewn difrif, petai hynny'n digwydd, oni fyddai hynny'n chwa o awyr iach i wleidyddiaeth yn Sir Caerfyrddin. Dim ond gofyn y cwestiwn.

Addewir y bydd y toriadau y bydd yr arweinydd yn gori drostynt yn ystod yr haf – tan fis Medi - yn cael eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf o 'Newyddion Cymuned' ar gyfer ymgynghori llawn. Mewn difrif eto, a yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori â neb erioed? Dim ond gofyn y cwestiwn.

Ac mae'r ateb i bob un o'r cwestiynau hyn yn cael ei roi yn gwbl ddiflewyn ar dafod gan 'Llais Sir Gâr': dim ond 2% o ddinasyddion Sir Gâr sy'n credu bod trethdalwyr y sir yn cael gwerth da am eu harian gan Gyngor Sir Gâr. Dyna ateb pob cwestiwn.

Cofiwch dalu aelodaeth CLWB CLONC cyn diwedd mis Gorffennaf, plis.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Yn ein rhifyn diwethaf soniwyd bod disgyblion blynyddoedd 3 a 4 wedi ennill yr anrhydedd o gystadlu yn rownd derfynol Cwis Llyfrau Cymru. Ar ddydd Gwener 18fed o Fehefin aeth y disgyblion gyda'u cefnogwyr i Ganolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth i gystadlu yn rownd Cymru yn erbyn 16 o ysgolion eraill.

Ben bore bu Osian Davies, Michael Roach a Gwen Thomas yn cystadlu yn y grŵp trafod. Y llyfr a oedd o dan sylw oedd 'Siencyn y Sipswn' gan Eurgain Haf. Roedd Rhys Evans hefyd yn rhan allweddol o'r tîm trafod yn rownd Ceredigion, ond yn anffodus bu rhaid iddo dderbyn llawdriniaeth ar y dydd Llun cyn y gystadleuaeth ac felly bu'n amhosib iddo gymryd rhan ar y dydd Gwener. Dymunwn wellhad buan iddo. Braf iawn oedd derbyn y canlyniad arbennig eu bod wedi ennill yr ail safle o'r grwpiau trafod i gyd. Cyn cinio, bu Katie Brown, Lowri Davies, Sioned Fflur Davies, Jac Evans, Emma Herbert a Gwen Thomas yn cyflwyno'r llyfr 'Cadno Campus' mewn cyflwyniad dramatig. Yn wir roedd hwn yn ddiwrnod prysur iawn i'r wyth ohonynt. Daeth newyddion da o lawenydd mawr ar ddiwedd y dydd wrth iddynt glywed eu bod wedi cipio'r wobr gyntaf am y cyflwyniad gorau o lyfr gan dderbyn tarian Coffa Anwen Tydu yn wobr ynghyd â gwerth £150 o lyfrau i'r ysgol. Roedden nhw wrth eu bodd. Cyn ddiwedd y dydd daeth y newyddion eu bod wedi ennill yr ail safle dros Gymru gyfan rhwng y cyflwyniad dramatig a'r trafod. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Rydym wedi trefnu cyfle i bawb sydd â diddordeb i weld y cyflwyniad buddugol ynghyd â chyflwyniad Bl. 5 & 6 ar brynhawn ddydd Mawrth, Gorffennaf 13eg am 2.30 y.p. Yn dilyn hyn, bydd aelodau'r Cylch Meithrin yn paratoi lluniaeth ysgafn am bris rhesymol. Cefnogwch yn llu.

Mae'r diolch am y llwyddiant ysgubol uchod yn mynd i griw bychan o bobl, sef Miss Sioned Whitfield am hyfforddi'r grŵp trafod, Mrs Linda Davies am hyfforddi'r grŵp cyflwyno ac i Mrs Catrin Evans am gyfeilio i'r cyflwyniad dramatig. Diolch hefyd i Mrs Marian Morgan am ysgrifennu'r sgript wreiddiol.

Bu'r plant yn cymryd rhan yn y Twrnament Pêl-droed a Rownderi i Ysgolion Cylch Llambed ddydd Gwener, Mehefin 11eg a gwnaethant fwynhau cystadlu ar ddiwrnod mor braf. Gwnaeth y tîm rownderi gyrraedd y rownd derfynol a dod yn ail yn erbyn Ysgol Gynradd Llanybydder. Gobrwywyd y disgyblion am eu llwyddiant a chyflwynwyd medal yr un iddynt i'w gadw.

Hoffwn ddiolch i Miss Angharad Evans, sydd wedi bod gennym yn yr ysgol fel rhan o'i gwaith cwrs dan adain Coleg Ceredigion. Bu'n gaffaeliad mawr i ni fel ysgol ac rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth mae wedi dangos i'r ysgol tra bu yma. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i'w chroesawu yn ôl atom ym mis Ionawr 2011 i ddilyn ei chwrs NVQ 3.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn chwech a fydd yn mynd i Ysgol Uwchradd Llambed ym mis Medi, sef Conner Boardman, Rhys Davies, Tomos Evans, Charlotte Giles, Robyn Giles a Carys Jones. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn. Hyderwn y byddwch yn gwneud yn dda ac yn sicrhau enw da Ysgol Llanwenog wrth i chi ddilyn eich gyrfa yn yr Uwchradd.

Clwb Cant Mis Mehefin, 2010

1af Glenys Williams, Derwen Deg, Llanybydder £15

2ail Mair Jenkins, Bronteifi, Alltyblaca £10

3ydd Denise Rickard, Brynafon, Drefach £5

Clwb Cant Mis Gorffennaf, 2010

1af Karen Griffiths, 23 Westburn Av, Bryncae - £15

2ail Mrs Val Williams, 28 Ffynnonbedr, Llambed - £10

3ydd Mrs Gwenda Davies, Bwlchmawr, Brynteg - £5

Clwb Cant Mis Awst, 2010

1af – Sioned Fflur Davies, Maesteifi, Llanybydder - £15

2il – Nicholas Greenfield, 32 Willow Rd, Potton Sandy Beds - £10

3ydd – John Davies, Bwlchmawr, Brynteg - £5

Cylch Meithrin Gwenog

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi eu cefnogi nhw dros y flwyddyn ac edrychwn ymlaen i groesawu pawb yn ôl ar ddydd Iau, Medi yr 2ail am 8.45y.b.

Cynhelir diwrnod agored 'Sêr Bach', rhwng 10.30 – 3y.p. ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 10fed lle bydd cyfle i chi gael cip olwg ar y lle dros baned. Meithrinfa gofal dydd i blant bach ydy 'Sêr Bach' sydd wedi ei leoli yn nhŷ'r Ysgol yn Llanwenog. Croeso cynnes i bawb ddod i ddymuno'n dda i'r fenter newydd yma. Am unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â naill ai Miss Lisa Williams neu Miss Katie Evans ar 01570 480 801 neu ddanfon ebost at meithrinfaserbach@gmail.com

Penblwydd yn 80

Dymuna Nancy, Hazledene, Drefach, ddiolch o galon am y rhoddion, yn flodau a chardiau a dderbyniodd wrth ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed, ac i Rhian am y gacen a gafodd. Diolch yn fawr i chi gyd.

Y Gymdeithas Hŷn

Mae tymor y tripiau am eleni hanner ffordd trwodd erbyn hyn. Aberhonddu oedd cyrchfan trip mis Mehefin, ac er gwaethaf cawodydd ysbeidiol, daeth y glaw i lawr tra'r oedd pawb dan do. Treuliwyd tua dwy awr a hanner o gwmpas y dre, cyn i'r bws ein cludo i lan y gamlas, a threulio dwy awr a hanner yn teithio mewn cwch ar ei hyd. Braf oedd cael sbel i deithio'n araf ac i ymlacio o brysurdeb bywyd. Cafwyd te abennig ar y cwch, a phawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Teithio nôl i westy'r Plough, Rhosmaen am swper, a hwnnw eto yn bryd blasus tu hwnt.

Bydd y trip nesaf yn mynd dros Bont Hafren i 'Oakham Treasures' ar y 14eg o Orffennaf. Enwau cyn gynted â phosib i Yvonne, 480590. Y bws i gychwyn o Lambed am 8 o'r gloch.

Cymorth Cristnogol

Diolch i'r holl wir-foddolwyr a fu o gwmpas yn casglu o dŷ i dŷ yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni eto yn ardaloedd plwyfi Llanwenog a Llanwnnen. Daeth y cyfanswm i £1,025. Diolch i bawb am eich cyfraniadau.

C.Ff.I Llanwenog

Dechreuad prysur iawn i'r haf a gafwyd gan y clwb wrth i ni gynnal ein helfa drysor flynyddol. Diolch i Pete a Meinir Ebbsworth a Huw Evans am wneud yr helfa eleni. A llongyfarchiadau i'r buddugwyr, Byron ac Alwena Williams. Edrychwn ymlaen at yr helfa y flwyddyn nesaf.

Daeth y rali yn fuan unwaith yn rhagor eleni eto ac roedd yn ddiwrnod braf ar Fferm Morfa, Llanrhystud wrth i C.Ff.I. Llanddeiniol ei gynnal. Braf oedd gweld Gwennan Davies, aelod o'r clwb yn forwyn ar y llwyfan.

Cafodd y clwb ddiwrnod llwyddiannus a dyma rhai canlyniadau:- Campwyr Campus 1af, Seren Wib 1af, Olrhain Eich hanes 5ed, Coginio 2il, Arddangosfa Cylch 4ydd, Generation Game 2il, Arddangosfa Ffederasiwn 3ydd. Gyda chystadlaethau'r aelodau sef coginio, gosod blodau a chrefft enillodd y clwb y 3ydd wobr. Ar ddiwedd y diwrnod cyhoeddwyd bod Llanwenog wedi dod yn 3ydd. Da iawn i'r holl aelodau a phob lwc i Enfys Hatcher sydd yn mynd ymlaen i gynrhychioli'r sir yn y 'Seren Wib' yn y Sioe Frenhinol ac i Gethin Hatcher, Guto Jones a Steffan Jenkins a fydd yn cystdalu yn y 'Campwyr Campus'.

Ar ôl yr holl waith caled a'r llwyddiannau ar hyd y flwyddyn roedd yn amser i ymlacio a dathlu wrth i ni gynnal ein barbeciw blynyddol yn Nhafarn Cefnhafod.

Bant ar drip yr aeth y clwb ar y 7fed o Fehefin wrth i ni ymweld â fferm Morfa, Llanrhystud. Taith ddiddorol a hwyliog iawn. Diolch am y croeso.

Nos Wener yr 11eg cynhaliwyd Rygbi 7-bob ochr y Sir yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Nid oedd gan y clwb dîm ond fe wnaeth Llŷr Davies chwarae efo tîm Llanddewi a Pontsian a chafodd e ei ddewis i chwarae i dîm y Sir a fydd yn chwarae yn y Sioe Frenhinol ym Mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau.

Ar y 19eg, gwnaeth cryn dipyn o'r aelodau fynd i Ysgol Gyfun Llambed i gystadlu yn Chwaraeon y Sir. Eleni eto cafodd y clwb ddiwrnod hwylus dros ben. Dyma'r canlyniadau:- Rasus 100m i ferched dan 16, Marian Thomas 2il, merched dan 26:- Sioned Davies 5ed, Bechgyn dan 16 Bleddyn Jones 3ydd, bechgyn dan 26 Rhydian Davies 2il, 800m i fechgyn dan 26 Llŷr Davies 2il. Ras Gyfnewid i ferched dan 16 3ydd, bechgyn dan 26 2il. Tîm pêl-rwyd hŷn 2il, tîm pêl-rwyd iau 3ydd, tîm pêl-droed iau 4ydd, tîm pêl-droed hŷn 1af. Ar ddiwdd y dydd cyhoeddwyd bod Llanwenog yn gydradd drydydd gyda chlwb Mydroilyn.

Hoffwn fel aelodau ddymuno pob lwc i bawb sy'n cymeryd rhan yn y sioe frenhinol ar ran y clwb sef, Hyrwyddo Clwb, Seren Wib, Campwyr Campus, Tîm Tynnu'r Gelyn a Llŷr yn rhan o'r dîm rygbi 7-bob ochr. Pob lwc hefyd i'r sir.

Eglwys Santes Gwenog.

Ar Nos Lun 5ed o Orffennaf bydd y Parch Suzie Bale yn derbyn gofalaeth eglwysi Llanllwni, Llanybydder a Llanwenog. Cynhelir ei gwasanaeth 'trwyddedu' yn eglwys Llanwenog ym

parhad

mhresenoldeb Archddiacon Aberteifi Yr Hybarch William Strange. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn am 7.00 yr hwyr gyda lluniaeth yn dilyn. Croeso cynnes i bawb.

Nos Wener yr 2ail o Orffennaf cynhelir 'Helfa Drysor Cerbydau'. Pawb i gwrdd tu allan i'r eglwys rhwng 6.00 a 6.30. Bydd y daith yn gorffen mewn lleoliad yn cynnig prydiau bwyd os y dymunir. Diolch i Geraint a Caroline am drefnu'r helfa.

Sylweddolwyd fod ein Gŵyl Flodau ar yr un penwythnos ag Eisteddfod Llambed, felly yr ydym wedi newid dyddiad yr Ŵyl i'r 6ed 7fed a'r 8fed o Awst. Thema yr Ŵyl yw 'Ein Hoff Emynau' a bwriedir canu rhain Nos Sul yr 8fed o Awst dan arweiniad Miss Manon Richards, Lowtre, un o aelodau gweithgar C.Ff.I. Llanwenog. Edrychwn ymlaen am gynulleidfa deilwng i'r noson.

Ar Dachwedd y 13eg bydd cyfle i chi ddod am 'Baned a Chlonc' i'r eglwys yn y prynhawn rhwng 2.00 a 5.30. Bydd naws 'Fictorianaidd' i'r prynhawn a bydd yno stondin gacennau a nwyddau ar werth. Cynhelir Raffl, a bydd canran o'r elw yn mynd i Ambiwlans Awyr Cymru.

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Dymunwn longyfarch tîm blwyddyn 3 a 4 ysgol Llanwenog ar sicrhau y safle cyntaf mewn cyflwyniad o lyfr ac ail yn y trafod mewn cystadleuaeth 'Cwis Llyfrau' yn ddiweddar. O gyfuno'r ddau ganlyniad fe sicrhaodd hyn yr ail safle iddynt yn Genedlaethol. Tipyn o gamp yn wir.

Carwyn Rosser, Gwel-Cwm-Teifi, Brynteg wedi ei lwyddiant mewn rasys beic modur yn Banc-y-felin y ddiweddar.

Rhifyn mis Medi
Yn y Siopau
Medi 2ail
Erthyglau i law erbyn
Awst 19eg
Newyddion i law erbyn
Awst 23ain

Llyfr Newydd...

Bwrlwm yr Eisteddfod yn llenwi'r amserlen

Roedd wythnos Eisteddfod yr Urdd yn gyfnod prysur iawn i sawl athro ysgol ond roedd hi'n wythnos tu hwnt o brysur i Gareth Lloyd James, dirprwy bennaeth Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Yn ogystal â'i holl ddyletswyddau fel is-gadeirydd pwyllgor gwaith Eisteddfod Ceredigion, roedd ei drydedd nofel yng nghyfres Cawdel, Dirgelwch Gwersyll Llangrannog, newydd ei chyhoeddi gan Wasg Gomer.

Beth am ei wythnos? Fore Llun, fe fu ef yn y pafiliwn gan iddo hyfforddi'r criw o ieuenctid i berfformio sgript Ceri Wyn yn y seremoni agoriadol. Fel Cadeirydd y pwyllgor gweithgareddau ac is-gadeirydd y pwyllgor gwaith, roedd llu o ddyletswyddau pwysig ganddo hefyd. Noson y Gân Actol yw nos Lun a Gareth wnaeth ysgrifennu a chyfarwyddo cân actol Ysgol Gymraeg Aberystwyth a sgriptio ymgom yr ysgol. 'Lledrith Llew' oedd enw'r sioe gynradd eleni ac roedd Gareth yn un o'r pedwar wnaeth sgriptio'r sioe honno. Fel awdur ifanc, mae'n ddyledus iawn i'r llew-frenin, T. Llew Jones, am agor y drws i fyd y dychymyg tra'n ddisgybl ysgol a'i ysbrydoli i fynd ati i lunio ei nofelau ei hun. Nid tu ôl y llenni'n unig roedd Gareth yn gweithio'n ddygn, gan y gwelwyd ef ar lwyfan y pafiliwn ddydd Iau fel Meistr Defod Seremoni'r Cadeirio.



Mae'n syndod ei fod wedi cael amser i fynd ati i ysgrifennu Dirgelwch Gwersyll Llangrannog, nofel antur i blant 9-11 oed!. Glyn, Deian, Jac a Rhodri yw'r cymeriadau sy'n mynd am benwythnos i'r gwersyll ar Fae Ceredigion a'r tro hwn mae Rhys, brawd bach Jac, yn ymuno â'r criw ar eu hantur. Gwibgartio, marchogaeth ceffylau, reidio beiciau cwad, heb sôn am ymweliadau â'r traeth ac ogofâu môr-ladron . . . does wybod beth ddigwydd nesaf!

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cwmann

Plantos Bach

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn hynod falch o gyflwyno i Gylch Ti a Fi Plantos Bach Sêl "Y Cylch Ti a Fi Rhagorol, sef tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol. Cafwyd arolygaeth yn y Cylch ym mis Mawrth a oedd yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau'r Cylch Ti a Fi gan gynnwys y bobl, yr amgylchedd, a'r profiadau a gynygir i'r plant yn eu gofal. Mae Siân Roberts-Jones, arweinyddes y Cylch yn falch iawn o'r anrhydedd arbennig yma sy'n golygu llawer i bawb sy'n ymwneud â'r Cylch. Hoffai ddiolch i bawb a fu'n ei chynorthwyo wrth baratoi at yr arolygaeth hon. Mae'r plant wrth gwrs yn mwynhau dod yma i ddysgu a chael hwyl trwy chwarae yn y Gymraeg ac mae'n fraint i gael cydnabyddiaeth genedlaethol am yr holl waith da a'r safonau uchel a gynygir yma. Mae Plantos Bach yn cwrdd ar fore Gwener rhwng 10 o'r gloch y bore a 12 o'r gloch y prynhawn yng Nghanolfan Bentref Cwmann yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Bydd Plantos Bach yn cau am yr Haf ar Ddydd Gwener, 16eg o Orffennaf lle byddwn yn cynnal mabolgampau i'r plant a'r mamau ar gae'r pentref. Byddwn yn ail ddechrau ar fore Gwener y 3ydd o Fedi, lle bydd yna groeso cynnes i blant hyd at bedair oed.

Clwb 225 Mis Mehefin

1. 127, Mrs. M Evans, Bronallt, Cwmann, 2. 179, Wyn a Meinir Jones, Hendai, Cwmann, 3. 119, Wendy Mason, 35 Heol Hathren, 4. 22, Jason Dvaies, 13 Heol Hathren, 5. 193, Mr a Mrs. Andrew Jones, Glanhathren, Cwmann, 6. 82, Eluned Evans, 16 Treherbert, 7. 180, Mrs. Jean Thomas, 4 Cwrt y Deri, Cwmann, 8. 199, Mr. L King, Tafarn Jem, Cwmann, 9. 13, Mrs. Mary Davies, Rhosycoed, Llanwnen, 10. Mrs. C Wilson, Lock and Key, Cwmann.

Penblwyddi

Dymuniadau gorau i'r canlynol. Gwilym Price, Brynderi, Danny Davies, Brynteifi a Gwen Jones, Gelliddewi, y tri wedi dathlu penblwyddi arbennig.

Priodi

Llongyfarchiadau i Llion a Beca, Coedeiddig gynt a briododd yn ystod y mis a phob dymuniad da yn eich cartref newydd.

Cartref Newydd

Ffarweliwyd ag Owen, Luned a'r teulu Cae Ram yn ddiweddar gan iddynt symud i fyw i Gaerfyrddin. Fe welwn eu heisiau yn fawr yn y pentref. Hyderwn eich bod yn setlo lawr yn iawn a'r plant yn mwynhau eu hysgol newydd. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Ysbyty

Da deall fod Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Muriel Davies, 2 Nantyglyn wedi dod adref o'r ysbyty, a Mattie, Ddeunant Hall yn gwella ar ôl ei hanffawd. Rydym yn dymuno adferiad llwyr a buan i chi gyd.

Diolch

Dymuna Danny, Brynteify ddiolch o galon i bawb a anfonodd gardiau ac anrhegion iddo ar ei benblwydd arbennig yn ddiweddar.

Clwb 125 Mai

1. Mr. Eifion Williams, Brynywawr, Cwmann, 25, 2. Mr a Mrs. Brenwand, Pan-un-Nos, Cellan, 101, 3. Mrs. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 119, 4. Mrs. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 62, 5. Venerable Dr. Will Strange, Vicarage, Cwmann, 136, 6. Mr. H Williams, Bryneusydd, Parc-y-rhos, 118, 7. Mr. Steven Palmers, The Gables, Cae Ram, Cwmann, 124, 8. Mr. Wayne Evasns, Annwylfan, Llanllwni, 82, 9. Mrs. Glenys Harrison, Ty Hir, Llanfair Road, 59, 10. Mrs. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm y casgliad eleni oedd £1,160.53. Diolch o galon i'r rhoddwyr ac i'r casglwyr. Rhagorol, pobl Cwmann!

Cronfa'r Gof-golofn

Diolch i bawb a gyfrannodd tua'r gronfa yma er cof am Miss Bessie Griffiths, 1 Stryd Treherbert. Trosglwyddwyd siec am £575 i'r trysorydd, Mr Eric Williams, Y Fedw.

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Braf oedd gweld pedair o ferched o'r ysgol yn Sioe Gynradd, "Lledrith Llew", Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ystod gwyliau hanner tymor. Roedd yn brofiad bythgofiadwy iddynt a chyfle i gwrdd â ffrindiau newydd. Roedd yn berfformiad graenus gyda ôl llawer o waith caled.

I orffen ein cyfarfodydd Urdd aethom i weld ffilm yn y sinema newydd yng Nghaerfyrddin ac yna ymlaen i McDonalds i gael swper. Mwynhaodd pawb yn fawr.

Golff sydd gennym yn ein sesiynau Campau'r Ddraig ac mae'r plant yn Adran Iau wrth eu bodd yn datblygu sgiliau newydd. Yn ogystal mae blwyddyn 3 a 4 yn mynychu sesiynau golff dan gynllun PESS gan gael hyfforddiant gyda Darren Griffiths yng nghlwb golff Caerfyrddin.

Bu'r Adran Iau yn cymeryd rhan yng nghystadleuaeth rownderi a phêl droed ysgolion cylch Llanbed ar gaeau Ysgol Ffynnonbedr.

Llongyfarchiadau i Hanna Thomas ar ennill y drydydd wobr am gynllunio carden i ddathlu fod y 'Cambrian News' yn 150 oed. Cafodd ei gwobrwyo ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llannerchaeron. Da iawn ti.

Mae Mrs Jones wedi bod yn gwneud sesiynau "Iaith a Chwarae" gyda rhieni a phlant yr Ysgol Feithrin a'r Cylch Ti a Fi. Cafodd y rhieni fwynhad o rannu profiadau a gwneud gweithgareddau gyda'u plant. Yn ystod un sesiwn daeth Linda Evans o 'Twf' atom i'n diddanu trwy ganu. Diolch Linda.

Mae'r Adran Iau wedi derbyn gwersi Addysg Grefyddol gyda Karen Ward.

Daeth Hywel Gwynfryn i'r ysgol i recordio eitemau ar gyfer ei raglen ar y radio. Bu Mrs Davies, Alwyn a Rhian Thomas yn siarad a bu'r plant i gyd yn canu. Hefyd siaradodd Eric Davies ac Emrys Evans cyn ddisgyblion yr ysgol a soniodd Caryl Evans, Cadeirydd Pwyllgor Rhieni, Staff a Ffrindiau, am yr ysgol yn dathlu 140 mlynedd o addysg eleni. Clywsom y recordiad fore canlynol yn yr ysgol.

Erbyn i rifyn mis Gorffennaf ddod allan, byddwn wedi cael ein mabolgampau ysgol. Bydd Alwyn a Jac wedi treulio tri diwrnod yng Nghaerdydd, taith ddiddorol yn llawn gweithgareddau a drefnir gan yr Urdd.

Rydym yn edrych ymlaen at nifer o weithgareddau cyn ddiwedd y tymor. Bwriadwn fynd am drip ysgol i Barc Deinosoriaid yn Ninbych- y- Pysgod.

Mae'r babanod yn edrych ymlaen o gael ymuno mewn gemau potes i ysgolion Cylch Llanbed ar gaeau chwarae'r pentre.

Byddwn yn mynd i'r mabolgampau yn Mhencader ar ddydd Mercher, 7fed o Orffennaf, lle bydd pawb yn cystadlu mewn amrywiaeth o rasys.

Ar fore'r 5ed bwriadwn godi arian i Haiti trwy law Cymorth Cristnogol. Trefnir taith feicio/gerdded noddedig ac mae croeso i rieni a ffrindiau ymuno â ni.

Bwriadwn gasglu sbwriel ar y mynydd fel rhan o ymgyrch cadw Cymru'n daclus.

Yn dilyn ymweliad Mr Phil Thomas o Tŷ Hafan ynghynt yn y tymor, bwriadwn godi arian tuag at yr elusen drwy wisgo lan/lawr am y dydd.

Rydym wedi cael gwahoddiad gan nifer o ysgolion y cylch i gymeryd rhan mewn gemau a chwaraeon. Gobeithio gallwn fynd â thimoedd i'w cefnogi.

Dymunwn fel ysgol wyliau haf hapus i ddarllenwyr Clonc.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Mae Cylch Ti a Fi Llanllwni newydd dderbyn statws Cylch Ti a Fi Rhagorol am ein bod yn cynnig safon uchel o wasanaeth, gofal ac addysg o ansawdd arbennig. Croeso cynnes i famau/ tadau, mamgu's a thadcu's, gofalwyr a'r plantos bach i alw draw bob bore Iau o 9 – 11 am baned a chlonc tra bod y plantos yn mwynhau chwarae tegannau, peintio a llawer mwy. Sdim ots os nad ydych wedi bod o'r blaen bydd yna groeso cynnes ichi. Yr ydym yn gwahodd siaradwyr draw yn aml i roi cyngor a chyfarwyddyd. Cysylltwch â Janet Jones, Arweinydd ar 01570 480 294.



Mike Harrington (Trysorydd), Christine (banc Lloyds), Meinir Davies (Cadeirydd) a Ruth Evans (Ysgrifennydd)

Bu'r Ffair Nadolig yn Neuadd yr Eglwys Llanllwni. Diolchwn i bawb a gefnogodd y ffair, i Lywydd y Ffair Parch Bill Fillery am ei gyfraniad hael i Christine Thomas Banc Lloyds Llanbed am drefnu i gyd ariannu'r elw gyda £1,000 o gynllun £1 am £1 y banc. O ganlyniad gwnaethpwyd elw o £2,598.86 swm sy'n dangos y gefnogaeth sydd i'r Ysgol Feithrin fel adnodd gymdeithasol bwysig i'r pentref a'r ardal.

Hefyd ar 10fed o Orffennaf cynhelir prynhawn Gwisg Fansi a Mabolgampau yng nghaeau'r Pentref. i ddechrau am 1.30y.h. Hefyd fydd yna bêl droed 5 bob ochr a barbeciw i ddilyn. Elw tuag at Cylch Meithrin Llanllwni. Pris mynediad £2, pensiyniwyr a phlant ysgol Gynradd am ddim. Lluniaeth ysgafn a stondinau ar gael. Dewch yn llu.

140 mlynedd

Cawsom noson arbennig ar nos Wener, 18fed o Fehefin, pan gynhaliwyd cyngerdd yn yr ysgol fel ran o ddathliadau yr ysgol yn 140 oed.. Plant yr ysgol, rhai o aelodau CFfI Llanllwni a chyn-ddisgyblion yr ysgol oedd yr artistiaid . Arweiniwyd y noson gan Caryl Evans a'r llywydd oedd Y Parchedig Eileen Davies, Gwndwn. Gwnaethpwyd y diolchiadau gan Mrs Nans Davies, y brifathrawes. Bu yn noson hwylus dros ben gydag amrywiaeth eang o eitemau. Edrychwn ymlaen at weddill y gweithgareddau dathlu a chofiwch archebu eich tocynnau oddi wrth Ruth (01559) 395225 neu'r ysgol (01559)395624.

Genedigaeth

Llongyfrachiadau i Rhys a Louise Thomas, Brynmyrddin ar enedigaeth Dylan Shôn – brawd bach i Ellie. Dymuna y rhieni ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion a phob dymuniad da.

Trip yr Henoed

Bydd trip Henoed Llanllwni yn mynd eleni ar y 3ydd o Awst ar hyd Dyffryn Gwy. Enwau i Dewi Davies, Glanafon neu Sallie Davies, Maes cyn gynted â phosib.

Clwb Clonc - Gorffennaf 2010

£50 rhif 277:
Geinor Medi Jones,
Bryndolau, Cwmann.
£50 rhif 113:
Mrs Pat Davies,
Henardd, Grennfield Teerace,
Llambed.
£25 rhif 66:
Mrs Rosemary Davies,
Brynteg, Heol-y-Wig,
Llambed.
£25 rhif 431:
Elsa Thomas,
9 Llys Myrddin, Caerfyrddin.
£20 rhif 258:
Caradog Jones,
1 Maes-y-felin, Llambed
£20 rhif 472:
Mrs Joyce Williams,
Pleasant Hill, Llanwnnen.
£15 rhif 343:
Aled Llyr,
17 Latimer Road, Llandeilo.
£15 rhif 412:
Cerys a Steffan Roberts,
Caeronnen, Cwmann.
£10 rhif 118:
Hanna Llewelyn Davies,
Ger-y-nant, Drefach.
£10 rhif 291:
Dewi a Sian Jones,
Blaenhirbant-Uchaf,
Cwmsychpant
£10 rhif 299:
Nel a Caradog Jones,
Coed-y-glyn,
Rhodfa Glynhebog, Llambed.
£10 rhif 315:
Eirian Jones,
Hollis, Heol-y-gogledd,
Llambed.
£10 rhif 37:
Wyn Davies,
Tyngrug-Uchaf,
Cwmsychpant.
£10 rhif 197:
Dan Griffiths,
Pengarn, Llanfair Clydogau.

Colofn y C.Ff.I.

Rali Llanddeiniol

Gwelwyd tyrfa dda o aelodau a chefnogwyr brwdfrydig yn Rali Flynyddol C.Ff.I. Ceredigion ar ddydd Sadwrn 22ain o Fai. Enillwyr llynedd, Llanddeiniol, oedd yn cynnal y Rali ac yn darparu'r anifeiliaid ar gyfer y cystadlaethau barnu, yr holl stiwardiaid oedd angen, ynghyd â darparu'r gefnogaeth ariannol a noddwyr ar gyfer y diwrnod prysur hwn. Cynhaliwyd y digwyddiad ar fferm Gwarfelin, Llanrhystud trwy garedigrwydd Mr D Morgan, Mr a Mrs G Jones, Gareth a Nerys. Diolch i Lywydd y Dydd, Mr a Mrs Ieuan Parry, Troedyfoel am eu presenoldeb, haelioni a'u cymorth i'r Rali a diolch i Brif Noddwr y Rali sef Dilwen Jenkins, Partneriaeth St. James's Place, Aberystwyth am ei chefnogaeth. Diolch hefyd i Mared Jones, y Swyddog Datblygu ac Anne Jones, Swyddog Gweinyddol am eu gwaith diflino. Thema'r Rali eleni oedd 'Croeso i Gymru' ac fe fydd yr enillwyr i gyd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol. Uchafbwynt y dydd oedd coroni Sara Downes, Llangeitho, Brenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn. Cafodd ei hebrwng i'r llwyfan a oedd wedi ei addurno'n hyfryd, gan ei morwynion, Gwennan Davies o Lanwenog, Caryl Haf o Landdewi Brefi, Meira Lloyd o Langeitho a Teleri Morris-Thomas o Bontsian. Gyda nhw hefyd oedd Ffermwr Ifanc y Flwyddyn, Wyn Thomas o Bontsian. Canlyniadau Terfynol y Rali: 1. Pontsian; 2. Talybont; cydradd 3. Caerwedros a Llanwenog; 5. Felinfach; 6. Mydroilyn.

Llongyfarchiadau i bawb a phob lwc wrth gystadlu yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf.

I gloi'r penwythnos cafwyd Cymanfa ganu wych yng Nghapel Rhiwbwys ar nos Sul y 23ain o Fai. Diolch i'r arweinydd Heledd Williams a'r cyfeilydd Bryan Jones. Artistiaid y noson oedd Lisa Jones, Bois y Fro ac aelodau Clwb Llanddeiniol. Llywydd y noson oedd Mr John Morris, Glancarrog. Diolch i chi gyd am wneud rali lwyddiannus!

Y C.Ff.I. yn Eisteddfod yr Urdd

Eleni, gan fod yr eisteddfod yn dod i Geredigion, penderfynodd C.Ff.I. Ceredigion y byddai hyn yn gyfle da i hyrwyddo'r mudiad. Roedd y mudiad yn rhannu stondin gyda'r FUW am yr wythnos - a diolch am eu caredigrwydd nhw i roi lle i'r C.Ff.I. ar eu stondin. Bu llawer o bobl yn ymweld â'r stondin yn ystod yr wythnos, a bu aelodau'r sir yn brysur yn defnyddio deunydd hyrwyddo newydd y sir fel y balŵns a'r sticeri, i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod ein bod ni yna! Hefyd, cafodd yr aelodau'r cyfle gwych i berfformio o flaen y dyrfa yn yr eisteddfod - gan i G.Ff.I. Ceredigion gael 2 awr o slot ar lwyfan perfformio'r Cyngor Celfyddydau ar y maes, i arddangos eu talent! Yn ogystal, ar ddydd Llun yr eisteddfod cynhaliwyd digwyddiad codi arian, lle'r oedd dynion dewr y mudiad a Chadeirydd C.Ff.I. Cymru, Tim John, yn cael eu coesau wedi'u 'waxo' ar gyfer elusen Sefydliad Aren Cymru. 'O chi'n ddewr iawn bois!

Llongyfarchiadau hefyd i bob aelod o'r mudiad fu'n cystadlu yn eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron, a dod â chlod i'r sir, ac i'r rhai fu'n perfformio yn y sioeau uwchradd a chynradd. Yn enwedig, mae'n bleser llongyfarch Catrin Haf, aelod o G.Ff.I. Mydroilyn, am ennill y Goron - llongyfarchiadau mawr i ti!

Cynhaliwyd gig ar noson olaf y cystadlu ar y cyd rhwng y C.Ff.I. a Phwyllgor Ieuenctid Eisteddfod yr Urdd, a chafwyd noson lwyddiannus iawn yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, gyda Fushanti ac Elin Fflur.

Rygbi 7 bob ochr

Cynhaliwyd cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr blynyddol y mudiad yng Nghlwb Rygbi Aberaeron ar nos Wener 11 Mehefin. Bu 4 tîm yn cystadlu, a'r enillwyr ar y diwedd oedd tîm o'r enw'r 'Llan-siân Darlings', sef cyfuniad o aelodau o glybiau Pontsian, Llanddewi Brefi a Llanwenog. Dewiswyd 15 chwaraewr i fod yn rhan o'r sgwad fydd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol. Pob lwc i chi bois!

Chwaraeon y Sir

Cyfle i'r siorts a'r trainers ddod mas am flwyddyn arall a gafwyd ar 19 Mehefin, ar gyfer cystadleuaeth olaf y flwyddyn sef y chwaraeon, a gynhaliwyd yn Llambed. Llongyfarchiadau i glybiau Bro'r Dderi a Phontsian am ddod yn gydradd fuddugol ar ddiwedd y cystadlu! Yn gydradd drydydd oedd Llanwenog a Mydroilyn. Dyma'r buddugwyr:

Athletau: 1af Bro'r Dderi
Badminton: 1af Mydroilyn
Pêl-droed dan 26: 1af Llanwenog
Pêl-droed dan 17: 1af Bro'r Dderi
Dodgeball: 1af Pontsian
Hoci dan 26: 1af Pontsian
Pêl-rwyd dan 26: 1af Pontsian
Pêl-rwyd dan 18: 1af Bro'r Dderi

Clwb 200

Enillwyr mis Mehefin: 1af C.Ff.I. Llanwenog, 2il Eirlys Lloyd, Llanfarian, 3ydd Helen Hopkins, Blaenpennal

Digwyddiadau i'ch dyddiadur!

9 Gorffennaf - It's a Knockout i aelodau hŷn ac aelodau cyswllt. Cel Aeron

19 -23 Gorffennaf - Sioe Frenhinol Cymru

4 Awst - Treialon Cŵn Defaid y Sir, Llanrhystud

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi

Teithiodd 14 o ddisgyblion Bl.5 a 6 gyda Mrs Ann a Miss Caryl i Ddenmarc. Cawsant amser da iawn yn aros gyda phlant a theuluoedd. Aethant ar deithiau i Legoland a Castell Koling.

Buodd Bl. 5 a 6 lawr yn y Ganolfan Hamdden yn Llanbed am brynhawn o wyddoniaeth gan ddysgu am y byd a'r planedau.

Daeth Mr Ball i'r ysgol i siarad â Bl.4,5,a.6 am sut oedd pobl yn cario dŵr yn Ne Africa.

Aeth 2 aelod o fwrdd y plant lawr i Aberaeron i drafod ac ymateb i Gynllun newydd plant a phobl ifanc. Aeth Bl.5 a 6 lawr i Lanbed i gystadleuaeth Pêl-Droed a Rownderi y cylch. Cawsant ddiwrnod arbennig. Fe ddaeth y tîm Rownderi yn fuddugol. Ar Ddydd Llun 14eg aeth Odwyn, Miss Lilian, Mrs Ann, Miss Bethan Roberts, Ceri, Luke, Rhiannon a Sophie Cadeiryddes y Llywodraethwyr i Neuadd Ddinas, Caerdydd. Hoffwn eich hysbysu fod yr ysgol wedi cyrraedd yr ail safle mewn seremoni gwobrwyo Addysg. Derbyniwyd y wobr sef plac gwydr hyfryd yn y categori "Tîm Ysgol Eithriadol y Flwyddyn". Ar brynhawn Dydd Mercher (16:06:10) cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni roedd ganddynt 3 tîm sef Teifi, Dulas a Aeron. Dulas oedd y tîm buddugol ar ddiwedd y dydd.

Dydd Iau y (17:06:10) daeth beirniad "Wales in Bloom" i'r ysgol.

Dydd Gwener (18:06:10) aeth aelodau'r Urdd Bl. 4 lawr i Landysul i dwrnament criced, a gwnaeth pawb frwynhau yn fawr iawn.

Mae Bl.4, 5 a 6 wedi bod yng ngweithdy ffilm ym Mhrifysgol, Llanbed, lle cawson y cyfle i weithio ar wahanol agweddau o greu ffilm, ac roedd Seremoni i gloi'r yr wythnos ar y dydd Gwener. Aeth rhai o flwyddyn 3 lawr i Theatr Felinfach i weld perffomiad "Beca". Mae Bl. 6 wrthi'n cael gwersi beicio gyda P.C Ryan.Unwaith eto cafwyd blas ar berfformiad Lledrith Llew ond y tro hwn yng nghyngerdd y Gerddorfa yn y Neuadd y Celfeddydau, Aberystwyth. Da iawn Rhiannon, Arianna a Ceri am gynrychioli'r ysgol gan chwarae eich offerynnau'n raenus. Ar ddydd Mercher (30:06:10) cawsom ddiwrnod gwisgo dŵl i godi arian i cyn-ddisgybl o'r ysgol Martin Theodaru sydd yn beicio o John 'o'Groats i Land's End tuag ymchwil Alzheimers.

Aeth Aelodau'r Urdd, Derbyn, blwyddyn 1 a 2 lawr i gaeau Ysgol Llanllwni am brynhawn o chwaraeon potes. Cofiwch am Ffair Haf yr ysgol ar y 3ydd o Orffennaf. Mi fydd Bl. 3 a 4 yn mynd i Pentre Bach am noswaith yn ystod mis Gorffennaf. Mae trip yr ysgol yn mynd i Barc Manor House ar Ddydd Mawrth 6ed o Orffennaf. Gwasanaeth gadael Bl. 6 croeso i chi ymuno gyda ni.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhodri Pugh-Davies a gafodd 2il yn Barnu Moch dan 21ain oed yn Rali C.Ff.I. Ceredigion yn ddiweddar.

Merched y Wawr

Ar Fai 19eg aeth y gangen am dro i'r ardd Wyllt yn Ysgol Ffynnonbedr. Yno cawsom ein tywys o amgylch yr ardd sydd yn newydd fel yr ysgol ei hun, gan un o ddirprwyon yr ysgol. Agorwyd yr ardd gan y darlledwr Iolo Williams. Edmygwyd yr ymdrech i greu'r ardd a'r holl ddatblygiadau sydd wedi cymryd lle ac mae llawer rhagor ar y gweill. Y prif atyniad oedd bwthyn Sion Phillip a'r llyn. Roedd y coed wedi sefydlu eu hunain ac wedi goroesi gaeaf caled. Mae dyfodol gwych i'r fenter yma. Gwelwyd hefyd fidio o hanes Syr Herbert Lloyd a Sion Phillip yr oedd rhai o'r plant wedi ei wneud ac roeddent wedi bod yn fuddugol dros Geredigion. Talwyd y diolchiadau gan Lettie Vaughan a Margaret Davies Jones gan ddatgan diolch yr aeoldau am y fraint o gael gweld a sylweddoli yr holl weithgaredd sydd ynghlwm ag ysgol. Ymlaen yr aethom wedyn i'r 'Castle Green' lle yr oedd pryd blasus iawn a chroeso cynnes yn ein disgwyl.

Ar brynhawn hyfryd ar Fehefin 16eg fe aeth y gangen a ffrindiau am wibdaith i Ddinbych y Pysgod. Cawsom orig i grwydro'r dre ac amser i fwynhau awel y môr cyn cael swper blasus iawn a chroeso bendigedig gyda Mr & Mrs Geoffrey Williams yng Ngwesty'r St Theresa ger muriau'r castell. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch wresog i Lettie Vaughan am drefnu'r diwrnod gan Gwyneth Evans. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Medi a chroeso cynnes i aelodau newydd i ymuno.

Hamdden

Cafwyd diwrnod i'w gofio! Trip i Erddi Bodnant ac yno gwelsom a mwynhau gwledd o flodau a phlanhigion a choed hynafol a'r bwa tresi aur yn fendigedig. Gwelsom ar ein taith y wlad ar ei gorau, y dyffrynnoedd a'r mynyddoedd yn disgleirio yn yr haul.

Cawsom ein pryd hwyrol yn Llety Ceiro a blasus iawn ydoedd hefyd, a'r croeso yn dwyngalon. Enillwyd y raffl gan Jenny Timmis, Ann Lewis, Rita Jones, Nancy Williams, Mair Morgan, Glenys Lloyd a Peggy Davies.

Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i Sally Davies gan y llywydd Dilys Godfrey am drefnu'r trip ac hefyd i'r aelodau a ffrindiau am gefnogi'r wibdaith. Ni fydd cyfarfod arall hyd yr hydref ond gwerthfawrogir pob awgrym am eitemau'r tymor nesaf.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Bu plant Ysgol Cwrtnewydd yn brysur iawn dros yr hanner tymor, ar y dydd Llun bu'r plant yn cystadlu yn y gystadleuaeth Dawns Creadigol, braf oedd gweld y pymtheg plentyn wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn. Ar y dydd Mawrth roedd plant y dosbarth hyn wedi cael eu dewis i berfformio dawns ar y thema 'Planedau'. Yr wythnos cynt roedd dawnswraig proffesiynol Jane Angharad wedi bod yn cynllunio a chreu dawns gyda'r plant, felly ar brynhawn Mawrth bu'r plant yn perfformio i'r cyhoedd. Yna ar y nos Fawrth a'r nos Fercher gwelwyd Iwan Evans, Rhys Davies, Gethin Morgans a Elin Davies ar lwyfan y pafiliwn yn perfformio sioe cynradd 'Lledrith Llew'.

Ar ddechrau'r hanner tymor bu Michael Morgan yn cynnal sesiwn Cymorth Cyntaf i rhieni, ffrindiau a staff yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn siwr wedi dysgu pethau newydd.

Bu Iwan Evans a Rhys Davies yn swyddfa'r Cyngor yn Aberaeron yn sgwrsio am Strategaethau Partneriaeth Plant. Cafodd y plant gyfle i ddweud eu barn ar sut y bydden nhw yn hoffi gweld ysgolion yn y dyfodol.

Bu plant y dosbarth hŷn yn ffodus iawn i gael sesiwn wyddoniaeth gan Miss Mattie Evans o Ysgol Gyfun Llanbed. Roedd y plant wedi mwynhau a diolchwn iddi am ei gwaith.

Aeth chwech disgybl o'r ysgol sef Kiera Cashel, Rhys Davies, Alexsandr O'dell, Iwan Evans, Briallt Williams ac Alpha Jones i Aberystwyth i gystadlu yn rownd Cymru o Gyflwyno a Thrafod Llyfrau i blant blwyddyn 5 a 6. Cafwyd diwrnod prysur iawn a'r plant wedi gweithio yn arbennig o dda. Fe gipiodd y plant y drydded wobr. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

Cynhaliwyd ein mabolgampau blynyddol ar brynhawn Gwener, braf oedd gweld cyn nifer o rieni a ffrindiau'r ysgol yn cefnogi'r plant. Ymunodd Ysgol Capel Dewi gyda ni. Ar ôl prynhawn o gystadlu brwd, y tîm melyn oedd yn fuddigol a chasglwyd y darian gan y ddau gapten, Edward Furlong ac Alpha Jones. Iwan Evans a wnaeth ennill Tarian Goffa Stephen Sutcliffe i'r bachgen â mwyaf o bwyntiau a Briallt Williams enillodd Tarian Goffa Ieuan Jones i'r ferch â mwyaf o bwyntiau.

Bydd Mr Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigon yn agor ein gardd yn swyddogol ar Ddydd Mercher, Orffennaf 7fed am 1.30y.p. Croeso cynnes i'r holl gymuned ymuno â ni ar y prynhawn hwn.

Mrs Lynda Jones o Fanc Barclays yn cyflwyno siec o £750 i Gymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Cwrtnewydd ar ôl eu gweithgareddau Calan Mai. Diolch yn fawr iawn iddi hi a'r banc am eu cefnogaeth.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis bu farw chwaer Gerwyn Davies, Tynfron allan yn Yr Amerig. Roedd hi wedi byw yno ers nifer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu i gyd yn eu colled.

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach. £30.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

Gorsgoch

Penblwydd Arbennig

Yn ystod mis Mehefin dathlodd Gwilym Evans, benblwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod.

Llwyddiant

Daeth llwyddiant i'r Gors eleni eto yn Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron, wrth i blant a phobl ifanc y pentref gystadlu a pherfformio o'u gorau. Llongyfarchiadau i Gwawr Hatcher, Cefn-hafod am ennill y gystadleuaeth creu mwgwd bl. 9 ac iau yn yr Adran Gelf a Chrefft. Roedd hi hefyd ynghyd â Sophie a Lauren Jones, Awel-y-Gors, yn rhan o barti cerdd dant Aelwyd Llambed a ddaeth yn 3ydd.

Bu Iwan Evans a Gethin Morgans yn brysur yn y Sioe Gynradd, Lledrith Llew. Iwan oedd yn chwarae rhan T Llew Jones, un o'r prif gymeriadau, a Gethin yn fôr-leidr, ac roedd yn bleser gweld y ddau yn canu, actio a dawnsio ar lwyfan yr Ŵyl. Bu Enfys Hatcher, Cefn-hafod yn llefaru o dan 26, gan ddod yn 2ail, ac yn siarad yn gyhoeddus i dîm siarad cyhoeddus Aelwyd Pantycelyn, gan ddod yn 3ydd. Bu hefyd yn arwain côr Aelwyd Pantycelyn yn y Gymanfa Ganu ar nos Sul yr Eisteddfod, yn cymryd rhan yn yr Oedfa Agoriadol, y Seremoni Croesawu ar y bore Llun ac yn tywys y bardd yn y Seremoni Gadeirio.

Cerddoriaeth

Llwyddiant eto i'r dair ferch, Sophie Jones, Gwawr Hatcher a Lauren Jones wrth i'r dair basio eu arholiad gradd 5 theori. Lauren gydag anrhydedd, a Gwawr a Sophie â theilyngdod. Da iawn ferched!

Pencarreg

Cymorth Cristnogol

Dymuna Ruth Jones ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at elusen Cymorth Cristnogol. Y cyfanswm oedd £56.60.

Jasmine Davies o Glenview, Pencarreg a enillodd wobr gyntaf am ganu emyn dan 16 oed, 2 ail ac 1 trydydd am unawd a 2 ail am lefaru 10-12 oed mewn eisteddfodau yn ddiweddar.

Cellan

Priodi

Pob hwyl i Alwen a Simon, Llys Teifi sy'n priodi ar y 10fed o Orffennaf ar Graig Lais, Aberystwyth. Gobeithio y bydd yr haul yn gwenu arnoch!

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Derrick, Dorlan, ddiolch am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn dderbyniodd, ac am yr holl gonsern ddangoswyd, yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

Llanbedr Pont Steffan

Dathlu 90 oed

Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus iawn i Mrs. May Thomas, 31 Bryn yr eglwys sydd yn 90 oed ar 24 Gorffennaf. Mwynhewch eich diwrnod arbennig. Pen-blwydd hapus hefyd i'w merch Maureen Rees, Penbryn sydd yn 65 oed ar 25 Gorffennaf.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymedimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Dathlu 70 oed

Pen-blwydd hapu i Idwal Morgan, 11 Ffynnonbedr sydd yn 70 oed ar 19 Awst. Mwynhewch y dathlu.

Arweinyddion Llwyddiannus

Daeth llwyddiant i ran Delyth Medi Lloyd a Mair Long, cyn aelodau gweithgar Aelwyd Llambed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanerchaeron. Cipiodd Ysgol Gyfun Glantaf dan arweiniad Delyth y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth parti bechgyn blynyddoedd 7-9. Hefyd daeth y fraint o feirniadu'r adran alaw werin i ran Delyth. Yn y gystadleuaeth gorawl i flynyddoedd 6 ac iau i ysgolion a dros 150 o blant dyfarnwyd Ysgol y Wern dan arweiniad Mair hefyd yn gyntaf. Ymhyfrydwn yn eu llwyddiant ac estynnir llongyfarchiadau gwresog i'r ddwy. Pob dymuniad da i Delyth a Mair yn y dyfodol.

Ysgol Ffynonbedr

Braf yw medru llongyfarch yr holl blant ynghŷd â'r rhai a fu'n eu dysgu am y safon arbennig a gyflwynwyd gan ddisgyblion yr ysgol yn Llanerchaeron. Gwnaeth pob un ymdrech glodwiw yn eu gwahanol gystadlaethau.

Y rhai a ddaeth i'r brig ar y llwyfan fodd bynnag oedd ein Grŵp Dawnsio Cyfrwng Cymysg a enillodd y wobr gyntaf. Hawdd oedd deall hynny wrth eu gwylio'n eu gwisgoedd amryliw o dan fflachiadau'r golau - ardderchog. Yna daeth Charlotte Saunders yn ail yn y canu ym Mlwyddyn 3 a 4. Cafwyd datganiad hyfryd ganddi - gwych iawn.

Rhaid peidio anghofio'r plant a ddaeth i'r ffrâm yn nhermau gwaith Celf a Llenyddiaeth. Derbyniodd Lowri Davies y wobr gyntaf am brint du a gwyn ac ar yr un pryd, enillodd Dlws Ted Breeze Jones am ffotograffiaeth. Tlws a dderbyniodd ar lwyfan yr Eisteddfod ar y dydd Llun.

Yn ogystal â hi, enillodd Meirion Thomas 3ydd yn y Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6 a Ruth Davies 3ydd yn y Gwaith Creadigol Bl. 2.

Yn yr adran Lenyddol, enillodd Lauren Hill ail wobr am ddarn o farddoniaeth - llongyfarchiadau i bawb.

Yn olaf ein diolch hefyd i Teon Rees, Caryl Jacob, Meirion Thomas, Charlotte Saunders, Lois Price a Tomos Jones am gwblhau eu gwaith mewn modd mor gaboledig yn y Sioe Gynradd - da iawn pob un ohonoch, roedd y Sioe yn werth ei gweld.

Nid yn unig ar lwyfan eisteddfod mae'r plant yn rhagori. Llongyfarchiadau i'r rhai a fu'n rhedeg yn Nhrawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Daeth Grace Page yn orau o blant yr ysgol, ond llwyddodd Grace Newman, Francesca Challis a Cerys Burrill mewn cyfuniad â'i gilydd i ddod yn ail yn eu ras nhw - gwych iawn.

Mewn cystadleuaeth frwd ar gae'r ysgol daeth y tîm rownderi yn ail yn eu cystadleuaeth. Yn y gystadleuaeth pêl-droed cawsom sefyllfa ddiddorol pan oedd tîm blwyddyn 5 a 6 yn chwarae tîm y bechgyn ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn y rownd derfynol. Wedi gêm llawn egni a chwarae i'w edmygu, y tîm ifancaf aeth a hi 2-1. Doedd Cwpan y Byd ddim ynddi a'r dathliadau'n rhai i'w cofio! Aelodau'r tîm buddugol oedd Iestyn Evans, Aled John, Osian Jones, Tomos Jones, Leon Holmes, Sam Brammeld a Kyle Lloyd. Sgorwyr y goliau oedd Leon a Tomos.

Cydnabyddiaeth

Bydd Mr Huw Jenkins, Pennaeth Ysgol Ffynnonbedr yn ymddeol ar ddiwedd y tymor ar ôl deugain mlynedd o wasanaeth i fyd addysg. Os hoffech gyfrannu i'r tysteb danfonwch gyfraniad at Mrs Eirlys Rees, Ysgol Ffynnonbedr, Teras Peterwell, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BX erbyn 5ed o Orffennaf.

Baban Newydd

Llongyfarchiadau i Huw ac Elizabeth Jenkins, Llyscerdd, Heol y Gogledd ar enedigaeth wyr bach Hari, sef mab i Nia a Sion yng Nghaerdydd a brawd i Daniel. Pob dymuniad da i'r teulu.

Ysgol Sul Noddfa

Bu plant a ieuenctid Ysgol Sul Noddfa yn cymryd rhan yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd eleni yn Salem Caio. Mwynhawyd gwledd arbennig yn oedfa'r prynhawn a'r plant i gyd ar eu gorau yn ymateb yn wych i gyfarwyddiadau Elonwy Davies yr arweinydd ac yn amlwg wrth eu bodd yn ei chwmni. Bu nifer o aelodau Ysgol Sul Noddfa yn cyheoddi'r emynau gan wneud hynny yn hynod o ddeallus a graenus. Pleser hefyd oedd gwrando ar ddatganiad swynol iawn gan Lisa Evans, Elan Jones a Beca Roberts.

Braf oedd gweld arddangosfa wych gan Ysgol Sul Noddfa ym mhabell yr Eglwysi yn

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron oedd yn cynnwys lluniau oedfaon yr ifanc, cardiau Nadolig a gynlluniwyd gan yr aelodau a hefyd gweddïau a baratowyd gan bob un. Plethwyd y cyfan at ei gilydd yn gelfydd gan Llinos. Bu Eisteddfodwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn edmygu'r gwaith. Erbyn i Glonc ddod o'r wasg bydd aelodau'r Ysgol Sul wedi bod yn diddanu'r Henoed yn Neuadd Fictoria ac wedi ymuno mewn oedfa gymun deuluol a mwynhau picnic ac ymweliad â'r ardd wyllt yn Ysgol Ffynnonbedr. Dymuna Janet ddiolch o waelod calon i'r plant a'r bobl ifanc am eu teyrngarwch yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio. Oherwydd y rygbi ar y Sul mae'r aelodau wedi dod ynghyd ar nos Wener yn wythnosol i baratoi ar gyfer y Gymanfa. Llawer o ddiolch hefyd i Llinos a'r rhieni eraill sydd yn barod i gynorthwyo yn yr Ysgol Sul. Bydd seibiant nawr dros yr haf. Mwynhewch y gwyliau.

Merched y Wawr

Croesawodd ein llywydd Aerwen bawb i'n Cyfarfod Blynyddol ar Fai 10ed. Etholwyd pwyllgor newydd ar gyfer ein tymor nesaf. Diolchodd Aerwen i Arthur a Dan am wneud y cyfri. Llongyfarchwyd Dilys ar ennill yr ail wobr o lunio clawr i lyfr lloffion yng Ngŵyl Fai y Mudiad. Danfonwyd llongyfarchion i Megan, wyres ein is-lywydd, ar ennill y wobr gyntaf am arlunio yn Eisteddfod yr Urdd Blwyddyn 1 a 2, a llongyfarchwyd Elma ar ddod yn famgu i Elin. Aeth Aerwen ymlaen i groesawu Paul Jones sydd yn gweithio yn y Ganolfan Hamdden atom. Bu'n sôn pa mor bwysig ydy hi i gadw'n heini ac iach beth bynnag ein hoed. Dangosodd ymarferion a oedd yn bosibl eu gwneud yn sefyll neu yn eistedd. Talwyd diolch iddo gan Mary.

Taith ddirgel fydd gennym fis nesaf yng ngofal Avril a Gwyneth.

Noddfa – Cyhoeddi Llyfr



Mae enw Beryl Davies o Landdewi Brefi sy'n aelod yn Noddfa yn adnabyddus i ni fel darllenwyr gan fod nifer o'i hemynau wedi ymddangos yn Clonc o dro i dro. Cyn hir daw cyfle i werthfawrogi doniau Beryl yn llawn pan y cyhoeddir llyfr o'i gwaith yn dwyn y teitl "Emynau'r Mynydd a Dylanwad Bore Oes". Er mai dyfrliw o Soar y Mynydd sydd ar y clawr ceir sôn ynddo am ddylanwad Noddfa ar Beryl ym more oes a hefyd dylanwad aruthrol ei thad arni y diweddar Tommy Davies, Treherbert, Cwmann. Bu'n ddiacon ac yn ysgrifennydd gweithgar a ffyddlon yr eglwys am flynyddoedd maith. Fel teyrnged i'w thad, mae'r llyfr yn cynnwys adroddiad Noddfa am y flwyddyn 1955 a gyflwynwyd ganddo yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd. Yn ogystal â thua 40 o emynau amrywiol sy'n darllen yn rhwydd. Ceir hefyd sonedau, cerddi ac ysgrif. Mae yn ambell i dôn newydd a gyfansoddwyd ar gyfer rhai o'r emynau a hefyd ceir rhestr o'r rhai traddodiadol a awgrymir ar eu cyfer - felly rhywbeth at ddant pawb. Enillodd Beryl wobrau lu mewn Eisteddfodau ar hyd a lled Cymru am ei gwaith a derbyniodd ganmoliaeth uchel iawn gan feirniaid o fri yn cynnwys y Prifeirdd Dafydd John Pritchard a Mererid Hoopwood. Bydd y llyfr yn adnodd defnyddiol ar gyfer eglwysi, ysgolion, corau ac unigolion o bob oed. Cyheoddir gan Wasg Gomer yn y dyfodol agos pris £7.99 ac fe fydd ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg ar hyd a lled Cymru. Llongyfarchwn Beryl am fynd ati i gyhoeddi'r llyfr ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i'w darllen.

Llanbedr Pont Steffan

Enillodd Adran Llambed y cyntaf yng nghystadleuaeth y parti unsain dan 12 oed yn eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron. Y cyfeilydd oedd Lowri Daniel a Rhiannon Lewis fu'n eu hyfforddi.

Aelodau Aelwyd yr Urdd Llambed yn ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth parti cerdd dant dan 19oed yn Llanerchaeron.(Elliw Dafydd yn absennol o'r llun). Hyfforddwyd gan Rhiannon Lewis a Delyth Medi.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Unwaith eto daeth llwyddiant i ran aelodau Adran ac Aelwyd Llambed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dyfarnwyd y parti unsain dan 12 oed yn gyntaf am ddehongliad cerddorol, aeddfed yn llawn brwdfrydedd o'r darn gosod "Sgorio Gôl". Ychwanegodd y beirniaid Owain Gethin Davies ac Odette Jones, "Dyma berfformiad gan barti o leisiau cyfoethog a erys yn hir yn y cof." Yn ail yn y gystadleuaeth oedd Adran Heol y March, Caerdydd ac Adran Llangwm yn y trydydd safle. Roedd yna gymeradwyo a gweiddi byddarol yn dilyn y canlyniad gan fod nifer helaeth o rieni a chefnogwyr yn bresennol. Profiad cyffrous i'r plant oedd ennill mewn Eisteddfod Genedlaethol ar stepen drws. Parhaodd y dathlu ar y Sadwrn olaf wrth i'r Aelwyd gipio'r drydydd wobr yn y gystadleuaeth i bartion cerdd dant dan 19 oed. Mae'r merched i'w canmol yn fawr gan mai dyma'r tro cyntaf erioed iddynt gystadlu yn yr adran hon. Llongyfarchiadau calonnog i'r Adran a'r Aelwyd ar eu llwyddiant ac am ddod â chlod i'r dref. Braf yw gweld llafur caled yr wythnosau diwethaf wedi dwyn ffrwyth. Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn i Rhiannon Lewis am roi o'i hamser prin i'w hyfforddi, i Delyth Medi am y gosodiad ac am ei chymorth gwerthfawr gyda'r parti cerdd dant ac i'r rhieni am eu cydweithrediad bob amser. Diolch hefyd i'r plant a'r bobl ifanc am eu ffyddlondeb i'r ymarferion ac i Lowri Daniel, cyn aelod gweithgar o'r Aelwyd am ei gwasanaeth fel cyfeilydd. Cafodd nifer o aelodau'r Aelwyd gyfleoedd gwych yn ystod yr wythnos. Daeth y fraint o gyrchu yn seremoni'r Coroni i ran Elliw Dafydd ac roedd Sioned Hatcher, Lowri Pugh Davies, Hedydd Davies, Beca Creamer a Megan Jenkins yn dywyswyr ar y llwyfan yn ystod y diwrnod olaf. Hefyd bu nifer o aelodau'r Adran a'r Aelwyd ym serennu yn y sioeau gan gyflawni eu gwaith yn ardderchog. Felly rhwng popeth, erys atgofion Eisteddfod Llanerchaeron gyda ni am flynyddoedd i ddod.

Pawb i gwrdd ar y Rookery am 6.15 nos Lun Mehefin 14eg.

Merched y Wawr

Taith ddirgel oedd cyfarfod Mis Mehefin wedi ei drefnu gan Avril a Gwyneth.

Bu dyfalu mawr ble oedd ein cyrchfan a datgelwyd y cyfan pan gyrhaeddom yr RNLI yn Aberystwyth.

Croesawyd ni gan Carwyn ac mi roddodd gyflwyniad i ni o'r gwaith sydd rhaid iddynt wneud a hynny yn wirfoddol.

Gwisgodd un o'r criw y dillad maent yn gorfod gwisgo cyn mynd allan ar y bad achub. Nid yw'r RNLI yn derbyn dim arian oddi wrth y llywodraeth ac maent yn dibynnu ar garedigrwydd y cyhoedd.

Bu rhai aelodau yn ddigon dewr i fentro allan i'r môr ar y bad achub.

Talwyd diolch i'r criw gan Aerwen. Ar ôl pryd o fwyd blasus yn Llety Parc cafwyd cyfarfod byr.

Llongyfarchodd y Llywydd bawb a oedd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis.

Aeth ymlaen hefyd i longyfarch Morgan, ŵyr Ann Lewis, am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth creu gwefan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Braf hefyd oedd gweld Manon, wyres Avril, ar raglen Bro Llambed yn ddiweddar.

Dymunodd Aerwen wellad buan i Glesni, Mair Jones a Mair Lewis y dair wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolchodd Aerwen i Avril a Gwyneth am drefnu noson arbennig i'r aelodau, diolchodd hefyd i'r pwyllgor presennol am eu cydweithrediad a dymunodd yn dda i Mary a'r criw am dymor llwyddiannus y tymor nesaf.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Alan Jenkins, Ceulan a fu yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Hefyd, cofiwn am Mrs Anwen Frost, Fferm Maestir sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

Gwellhad buan i chwi eich dau.

Wythnos Cymorth Cristnogol Mai 15 -19 2010

Cafwyd ymateb arbennig eleni eto i gasgliad Wythnos Cymorth Cristnogol.

Diolch yn fawr iawn i wirfoddolwyr o'r gwahanol Eglwysi a Chapeli yn Llambed ac yn y fro a fu allan yn casglu o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos.

Diolch hefyd i bentrefi Cwmann, Cellan, Llanddewibrefi, Silian a Pharcyrhos ac hefyd i unigolion am eu cyfraniadau hael hwythau

Diolch hefyd i Eglwysi a Chapeli'r fro am eu cyfraniadau gwerthfawr.

Mae cyfanswm y casgliad eleni yn £3156.72. a bydd hwn yn cael ei anfon ymlaen i Swyddfa Cymorth Cristnogol yn ystod yr wythnosau nesaf. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd tuag at yr elusen bwysig yma.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref

Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod
Gorsgoch
☎ 01570 434238
Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.
Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.
Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Mwnci ffwnci

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎**01570 423135**
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS
OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Toriad Taclus
Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Llanybydder

Yswiriant FUW yn ehangu yn Llanybydder

Mae Gwasanaethau Yswiriant Undeb Amaethwyr Cymru wedi agor swyddfa newydd yn Llanybydder. Mae'r swyddfa sydd ar Sgwâr y Mart wedi ei adnewyddu yn arbennig er mwyn ehangu'r gwasanaeth . Mae dau ymgynghorydd yswiriant sef Alan Jacob, Ceredigion, a Gwion James, Sir Gaerfyrddin yn gweithio o'r swyddfa gyda chymorth Carys Davies, Swyddog Gweinyddol.

"Mae'r swyddfa mewn lleoliad delfrydol i'r mart", meddai Roger Van Praet, Rheolwr Rhanbarthol De Cymru Yswiriant FUW. "Mae Yswiriant FUW, fel un o brif broceriaid Cymru yn ymroddgar i ddatblygu rhwydwaith o swyddfeydd sy'n cynnig pob fath o bolisi yswiriant, a gwasanaeth lleol. Yn y llun mae Gwion James,Carys Davies, Alan Jacob.

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Len Ebenezer, Cedars ei benblwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod. Hefyd, ymddeoliad hapus i chi pan fyddwch yn ymddeol o Ysgol Gyfun Llambed ar diwedd tymor yr haf.

Diolch

Dymuna swyddogion pwyllgor Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambed ddiolch yn wresog i Elonwy Davies am ei gwasanaeth amhrisiadwy fel arweinydd am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae ganddi'r ddawn, yn ei ffordd ddihafal ei hun o dynnu'r gorau allan o'r cantorion a mae'r plant wrth eu bodd yn ei chwmni bob amser. Mae dyled y pwyllgor yn fawr hefyd i Emlyn Davies am ei barodrwydd i arwain y rihyrsals a hynny yn ddi-dor ers pum mlynedd ar hugain bellach. Gwerthfawrogir gwasanaeth Elonwy ac Emlyn yn fawr iawn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Eirig a Lowri Jones, Brynhyfryd ar enedigaeth ei merch, gwenno Mai ar y 25ain o Fai.

18 oed

Cyfarchion penblwydd i Rhodri, Llysneuadd yn ddeunaw oed yn ystod y mis. Pob lwc i ti hefyd yn dy swydd newydd yn y Trallwng.

Llongyfrachiadau

Llongyfrachiadau i Siôn Pentop am gael cyntaf yn Crochenwaith yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron.

Diolch

Dymuna Eirig a Lowri ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar enedigaeth Gwenno Mai.

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

11eg Medi 2010

Llywydd: Mrs Iona Reeves, Talgarreg

Sioe, Cystadlaethau CFfI, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir a Defaid Prin, Bar, Coits ac atyniadau eraill.

Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:
Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Arbenigedd lleol
Polisïau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu
Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Gohebiaeth Clonc

Cynllun Gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru i Batagonia

Garn,
Cwmann,
Llambed.

Annwyl Olygydd,

Rwyf i wedi cael y fraint o gael fy newis yn un o 24 person o dde Cymru sy'n mynd i fod yn ymweld â Phatagonia, De America yn Hydref 2010 fel rhan o gynllun gwaith gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru. Yn ystod y daith, byddaf yn cyflawni gwaith gwirfoddol a dyngarol yn yr Ariannin, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc.

Bydd y daith yn datblygu fy sgiliau bywyd i ac yn datblygu'r berthynas rhwng Cymru a Phatagonia. Byddwn ni yn rhan ganolog o drefniadau'r project, o drefnu'r daith a chydlynu gwaith gwirfoddol yn yr Ariannin, i godi arian a chyfathrebu gyda'n partneriaid ym Mhatagonia. Rwy'n awyddus iawn i rannu fy mhrofiadau gyda chymdeithasau ac ati ar ôl dychwelyd ac edrychaf ymlaen i ysgrifennu pwt i Clonc.

Fel y gallwch ddychmygu, mae cost anferth ar gyfer y daith yma. Mae pob unigolyn yn gorfod codi o leiaf £1875 i allu cymryd rhan yn y cynllun yn yr Ariannin. Rwy'n gweithio'n galed ar hyn o bryd i gyrraedd y targed yma trwy wneud gwaith gwirfoddol a thrwy gymorth fy ysgol.

Credaf y bydd y daith yma yn magu sgiliau a phrofiadau newydd i mi a fydd yn fy helpu i wneud gwahaniaeth a chyfrannu at y gymuned ym Mhatagonia ac yma yng Nghymru.

Ysgrifennaf felly i ofyn am gymorth a fydd yn fy ngalluogi i gymryd rhan yn y prosiect yma.

Bydd unrhyw nawdd y gallwch chi ei roi i mi'n bersonol yn cael ei gydnabod fel cymorth i'r holl brosiect. Rwy'n fwy na hapus i gyfarfod gyda chi er mwyn esbonio mwy am y cynllun.

Yn gywir ac yn obeithiol,
Guto Gwilym

Diolch, diolch, diolch...

Annwyl Gyfaill

Ar ran swyddogion Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010 hoffwn ddiolch o galon i bawb ar draws y sir a sicrhaodd fod yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llanerchaeron yn aros yn y cof am flynyddoedd i ddod.

Roeddem yn lwcus tu hwnt gyda'r tywydd, wrth gwrs, a'r safle yn fendigedig, ond eich ymroddiad chi fel gwirfoddolwyr a lwyddodd i greu yr awyrgylch gynnes a chroesawgar a oedd yn nodweddiadol o'r wythnos.

Rydym yn sylweddoli nad ymroddiad am wythnos yn unig oedd hyn ond yn hytrach dros y bedair blynedd diwethaf, yn cynnal digwyddiadau, casglu arian, a chodi ymwybyddiaeth ac, heb os, fe dalodd hynny ar ei ganfed!

Diolch yn fawr iawn.
Deian Creunant
Cadeirydd Pwyllgor Gwaith

21 mlynedd yn ôl sef ar 5 Awst 1989 cafodd Helen Thomas o Gastell Newydd Emlyn ei lladd pan yr oedd hi yn gwersylla yng Nghomin Greenham gydag ymgyrchwyr eraill oedd yn gwrthwynebu'r ras arfau niwclear.

Cynhelir digwyddiad i Gofio Helen ar ddydd Sul 1 Awst am 1.30 yn y prynhawn ar safle yr Ardd Goffa yn Greenham.

Bydd cyfraniadau amrywiol gan
- Dafydd Iwan,
- y Prifardd Emyr Lewis,
- y Prif Lenor Meg Elis,
- Jill Evans AE
- Llinos a Cynog Dafis,
- Dion a Catrin, Heledd a Gwenllian sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Dyffryn Teifi sef yr ysgol a fynychodd Helen a hi a luniodd bathodyn yr ysgol

Lowri Evans ynghyd a rhai o aelodau Aelwyd Emlyn

Bydd bws yn cael ei drefnu o ardal Castell Newydd Emlyn.

Y gobaith bydd y digwyddiad yn denu rhai o fynychwyr yr Eisteddfod Genedlaethol a fydd wedi cychwyn y diwrnod cynt yng Nglyn Ebwy.

Am fanylion pellach cysyllter a Cen Llwyd ar 01545 590295

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Rhys Lewis Evans**
Oed: 26
Pentref: Llanybydder
Gwaith: Rheolwr Banc Natwest
Partner: Coco Davies
Teulu: Mam – Susie, Dad- Lewis, Brawd – Llŷr.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
'Poacho' Salmon gyda dad.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Minder

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Colli wrth ymaflyd breichiau gyda merch!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Cadw cefn cryf.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Wham, Wake me up before you go go.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
George Best

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Torri ffenest yn y Bush.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Wrth y bar yn Savannahs.

Beth yw dy lysenw?
Barrells.

Pwy yw dy arwyr?
Tiger Woods.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Merched gyda bach o afael!

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Dim digon o bwysau i godi yn y gampfa leol.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Gwyrdd iawn ar fore dydd Sul!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Trip i Vegas.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Dad yn grac.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Yn y ring wrth baffio.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan stwffiodd Gary Davies minced beef & onion pie yn fy wyneb i yn Walkabout Caerdydd.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Ar Allt y mynydd.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael gwaith.

Ac yn bersonol?
Codi 77.5kg wrth neud deadlift.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Sythwr gwallt a lleithydd lliw haul.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cael trawsblaniad aren.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Big Booze Barrells.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Lada 1.3.

Beth yw dy hoff adeilad?
Natwest, Llambed

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Josh Turnbull.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Mmbop gan Hanson.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Look Magazine.

Beth yw dy hoff arogl?
Channel Number 7.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
2596

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?
25

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Scott Gammer

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Sythwr gwallt a phoster o Justin Bieber.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Chwarae Rygbi.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Cwrso Ken Gas ar y beic.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Sythwr gwallt GHD gwerth £120.

Y gwyliau gorau?
Magaluf

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Thailand, Amsterdam a Colombia.

Arferion gwael?
Codi pwysau o flaen y drych adre.

Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
Wi'n sengl.

Hoff gân ar dy ipod?
Hannah Montana – Let's Get Crazy.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Dal yn byw gartre

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Mared Jones, Tregaron

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

					6	3	7	1
3				2				
					1	8		
5	7	6		4				
		1				5		
				5		6	8	2
		5	9					
				1				9
2	3	9	6					

Atebion Swdocw mis Mehefin:

8	9	6	5	7	3	1	2	4
4	5	7	9	1	2	3	6	8
1	3	2	6	4	8	5	7	9
9	6	8	7	3	5	2	4	1
7	4	5	1	2	9	8	3	6
2	1	3	8	6	4	7	9	5
5	2	9	4	8	7	6	1	3
3	8	1	2	9	6	4	5	7
6	7	4	3	5	1	9	8	2

Llongyfarchiadau i **Hannah Evans, Hafdre, Cwmann;** a diolch i bawb arall am gystadlu: Mrs M Beynon, Castle Green, Llambed; Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder; Augusta Davies, Kings Mead, Llambed; Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Greta Walters, Y Graig, Llanfihangel-ar- Arth, Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Mrs B Morris, Bro Mihanel, Felinfach; Shirley Walker, 8 Heol-yGaer, Llanybydder a Janet Willaims, Lynden, Cwmffrwd.

Llanfair Clydogau

Parti Barbara Tucker

Efallai y byddwch yn cofio mai mis diwethaf y buom yn llongyfarch Barbara Tucker ar gyrraedd ei phenblwydd yn 90 ac yn sôn am y parti mawr oedd wedi ei drefnu ar ei rhan. Wel mae'r parti wedi bod a dyna beth oedd parti!

Fe ddaeth bron pawb o'r pentref i'r neuadd i fwynhau cwmni Barbara ac i'w helpu i ddathlu. Cafodd wledd o fwyd a diod gyda Barbara yn cyfrannu yr eog, yr ham a digon o win i bawb. Diolch i ferched y pentref am eu cyfraniadau ac am baratoi y cwbl.

Cafodd gacen fel anrheg gan Joyce Dixon, Ty'n Lon, wedi ei haddurno yn wych. Daeth grŵp o blant o Ysgol y Dderi gyda'u hofferynnau i'w diddanu a swynol iawn oedd eu cyfraniad i'r prynhawn. Diolch iddynt ac i Mrs. Ann am drefnu iddynt ddod.

Fe roddwyd llun iddi gan bwyllgor y neuadd yn dangos ei hanes ar dudalen flaen y Cambrian News.

Gŵyl Gwrw a Barbeciw

Ar nos Wener, Mehefin 11eg, cafwyd noson o chwarae gemau i agor y penwythnos, gyda grŵp da o bobl wedi dod ynghyd.. Yn ystod prynhawn Sadwrn galwodd rhai i mewn i flasu'r cwrw ac erbyn amser cael y barbiciw roedd y lle yn gysurus lawn ac yn brysur dros ben. Buom yn lwcus i gael noswaith braf a bwyd da. Diolch i bawb fu'n coginio y cig a pharatoi bwyd, llysiau a gweini y bwyd. Ar ôl iddi ddechrau oeri

symudodd pawb mewn i'r neuadd i ddawnsio a chymdeithasu.Diolch i Lesley a Glenys am drefnu yr ŵyl gyda help ffrindiau a pherthnasau ac i bawb arall a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud penwythnos llwyddiannus.

Rali Car

Ar nos Wener, Mai 16eg, cynhaliwyd rali wedi ei threfnu gan Lyn ac Alex, Awelon.

Daeth digon i lanw 9 car ynghyd i fwynhau yr her, llawer o grafu pen a mwynhad gyda theulu Branston yn ennill. Ei gwobr oedd i drefnu y rali y flwyddyn nesaf. Y cliw olaf daeth â phawb i'r Tair Pedol, Llangeitho lle cafwyd swper blasus a llawer o gymdeithasu. Diolch i Lyn ac Alex am eu holl waith.

Mwyngloddio ym Mhonterwyd

Mae grŵp hanes i'w gael yn y pentref ac ar ddydd Llun, Mehefin 14eg, aeth nifer ohonynt i Lywernog ger Ponterwyd i ymweld â'r mwynglawdd. Cafwyd taith mewn i'r mwynglawd a gwelsant yn union sut oedd y cyflwr gweithio mewn lle mor anodd gyda dim ond canhwyllau i oleuo'r ffordd. Mae'r grŵp hanes yn y dyfodol agos yn paratoi gwneud gwaith ymchwil ar y mwyngloddiau yn Llanfair.

Plant Ysgol Sul Capel-y-Cwm gyda'u tystysgrifau Arholiad.

Clwb 200

£20 Beti Davies, Bryn Castell; £10 Mrs Mathias Williams, Greenhill;

£10 Glennis Gratwick, Sŵn y Ddol; £10 Ben Leech, Tan yr Esgair; £5 Linda Quelch. Ty Nant; £5 Alan Leech, Tan yr Esgair; £5 Ieuan Thomas, Maesisaf; £5 John Petts, Lluest Isaf; £5 Charlotte Evans, Y Ddol; £5 Iola Wilson, Pant Teg;

Gwellhad Buan

Roeddem yn falch iawn clywed fod Dodi Herchel, Nant y Felin wedi dod adref o'r ysbyty ar ôl cael llawdriniaeth ar ei phenglin. Dymunwn wellhad buan iddi

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes i Daniel, Nantymedd am ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth lliwio ym mhabell Dai Jones, Llanilar gan ennill siwmper.

Grŵp Cerdded

Ar prynhawn dydd Sul, Mai 16eg aeth 14 o bobol y pentref i gerdded yn yr ardal uwchben Llanfair. Ar ôl gadael y ceir ger Trebannau ar Sarn Helen aeth y daith â nhw i ardal yr hen dafarn Halfway a wedyn i gerdded ar ochr Graig Twrch. Nes ymlaen daethant at adfeilion hen ffermydd fel Esgair Fraith, Moelfryn a Bryn-meiog. Yn ôl y sôn cafodd bawb amser diddorol ac yn edrych ymlaen i'r daith nesaf sydd ym mis Awst.

Cwmsychpant

Ysgol Sul Capel-y-Cwm

Ar fore dydd Sul, Mehefin 13eg cyflwynodd Nia Davies dystysgrifau i'r plant hynny a gymerodd rhan ac a fu yn llwyddiannus yn yr Arholiad a gymerodd le yn ddiweddar.

Dan 7 oed – Luned Jones, Luc Jenkins, Bethan Jenkins, Hafwen Davies, Lisa Jenkins, Lois Jones a Beca Jenkins. 7 – 9 oed – Osian Davies, Sioned Fflur Davies ac Owain Jones. 9 – 11 oed [ysgrifenedig] – cydradd 1af Meleri Jenkins a Ceys Pollock.

Bydd trip blynyddol yr Ysgol Sul yn mynd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 31ain i Techniquest yng Nghaerdydd. Os ydych am ddod, cysylltwch â Nia Davies yn fuan.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Talar Wen ar gael ei swydd gyntaf fel athrawes yn Ysgol Gynradd Llandysul. Bydd yn cychwyn yno ym mis Medi. Pob lwc i ti.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Betty Jones, Delfan ac Eifion a'r teulu, Talar Wen ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb sef Mrs Silla Phillips a oedd yn byw yn Saron.

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR. COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

O'r Cynghorau Bro

Cyngor Tref Llambed

Maer: Selwyn Walters; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Ebrill 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer ac offrymwyd gweddi ganddo.

Cyflwynwyd aelodau'r Cyngor i Reolwr Rhanbarthol yr heddlu yng Ngheredigion, Simon Powell. Fe'i penodwyd i'r swydd chwe mis yn ôl. Mae'n awyddus i wrando ar ofidiau pobl ac i'r perwyl hwn yn cerdded strydoedd y dref yn gyson. Nodwyd bod lefel troseddi wedi disgyn 9% yn yr ardal dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r gorchymyn i sefydlu parth ddialcohol wedi ei gymeradwyo ac wedi ei estyn i gynnwys Parc St Germain-sur-Moine a'r Cwmins. Y gobaith yw gallu cynnwys Maes Parcio'r Eglwys Gatholig a Mynwent Eglwys San Pedr yn ogystal.

Mynegwyd pryder ei bod hi wedi cymryd awr a deng munud i'r heddlu ymateb yn ddiweddar i ddigwyddiad gwrthgymdeithasol yn y dref.

Atgoffwyd yr heddlu bod Cyngor y Dref yn awyddus i weld arolwg o drafnidiaeth yn y dref.

Nodwyd bod parcio ar y palmentydd yn broblem ar Ffordd y Porthmyn a gyferbyn â Spar.

Llongyfarchwyd PCSO Ryan Jones ar ennill cymeradwyaeth am ei gyfraniad i Blismona Ardal yng nghylch Tregaron a Llambed.

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer sefydlu'r maer newydd ar 7 Mai a nodwyd mai'r Parch Janet Robbins fyddai Caplan y Maer am y flwyddyn sy'n dod.

Nodwyd ymateb Prif weithredwr Ceredigion i'r anawsterau parthed Maes Parcio'r Rookery, Mountwalk a Picton Lane. Byddai'r gwaith ar ddau o'r safleoedd yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Roedd y cynghorwyr yn anhapus bod y Cyngor Sir fel petaent yn anwybyddu'n gyson geisiadau am wybodaeth gan Gyngor y Dref.

Roedd baneri wedi'u gosod yn y dref i ddathlu cynnal Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Rob Phillips; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Mai 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Diolchodd i bawb am eu cyfraniad i Gyfarfod Sefydlu'r Maer. Offrymwyd gweddi gan Chris Thomas.

Plismona: Bydd y Maer yn siarad â'r heddlu am bosibilrwydd cyflwyno Gorchymyn Trafnidiaeth yn Stryd y Farchnad.

Ar ddechrau'r cyfarfod cyflwynwyd Norman Hill i'r Aelodau. Cyflwynodd gopi o'r gyfrol Peterwell-Cilgwyn 1905-2005: the first 100 years recorded in words and pictures i nodi canmlwyddiant Clwb Golff Cilgwyn.

Gwnaed cyflwyniad gan Lowri Thomas o'r Cyngor Sir am gynlluniau i wella Sgwâr Harford, yn enwedig y ffynnon. Cymeradwywyd y cynllun gan gyngor y dref ond holwyd am fanylion pellach cyn i'r cyngor wneud penderfyniad. Pan ddeuai'r rhain i glawr, trefnid trafodaeth bellach.

Cafwyd adrodiad am y cyfarfod a gafwyd gyda'r Cyngor Sir ar 7 Mehefin. Roedd llawer o anawsterau, fe ymddengys, wedi codi oherwydd bod system ffôn newydd yn cael ei osod ym mhencadlys y Cyngor Sir a chyfathrebu electronig wedi bod yn anodd.

Trafnidiaeth: Y gobaith yw y bydd diogelwch cerddwyr ar Ffordd y Gogledd ynghyd â chyfyngiadau parcio ar res Harford a Heol y Bryn/Heol Cambrian yn cael sylw yn ystod y flwyddyn.

Nid oes adnoddau ar gael ar hyn o bryd i wneud arolwg cyflawn o drafnidiaeth yn y dref.

Roedd Adroddiad Blynyddol Cyngor y Dref wedi'i gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am ystyriaeth. Nodwyd bod cyfeiriad gwefan y Cyngor yn Saesneg yn unig ac argymhellwyd bod y Cyngor yn ystyried mabwysiadu cyfeiriad Cymraeg yn ogystal. Penderfynwyd gwneud hynny. Gofynwyd am roi'r Cynllun Iaith Gymraeg yn Gymraeg ar y wefan. Llongyfarchwyd y Cyngor ar eu gwefan ddwyieithog gan y Bwrdd.

Penderfynwyd llongyfarch prifathro'r ysgol gynradd ar yr arddangosfa dechnoleg yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas; Clerc: Gwennan Davies; Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 15 Mai 2010. Croesawyd pawb i Neuadd y Pentref, Drefach gan y Cadeirydd.

Dechreuwyd y noson trwy ailethol y Cyng Mary Thomas yn gadeirydd a'r Cyng William Green yn Is-gadeirydd.

Gwnaed ymholiadau am yr arwydd newydd i Lanwenog. Mae'r Cyngor Sir wedi ei archebu ond nid yw wedi cyrraedd eto.

Bu swyddogion y cyngor allan yn archwilio'r sefyllfa yng Nghapel Brynteg ac roedd y cynghorwyr yn hapus â'r awgrym bod ramp tarmac yn cael ei roi o flaen y fynedfa i gyfeirio'r dŵr - ar yr amod bod llinellau melyn yn cael eu paentio.

Derbyniwyd cwyn am gŵn sy'n cael eu gadael yn rhydd ar hyd llwybr cyhoeddus Dôl Pant yn Llanybydder. Roedd y cŵn wedyn yn rhedeg ar draws y cae. Er bod arwydd yno'n barod penderfynwyd cael arwydd mwy o faint yn dweud y byddai cosb ariannol am fynd â chŵn yno.

Derbyniwyd cais cynllunio yn gofyn am estyniad i safle parcio lorïau ar gae Maes-y-felin.

Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: John T B Williams; Clerc: Eirian Williams; Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 18 Mai 2010 yng Ngwesty'r Grannell

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yng Ngwesty'r Grannell. Wedi i gofnodion Cyfarfod 2009 gael eu darllen a'u derbyn fel cofnod cywir o'r digwyddiadau, cyflwynwyd y Fantolen Ariannol am 2009-2010 gan y cyn-glerc Mr. Aneurin Davies.

Etholwyd y Cyng. John T. B. Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn 2010-11 a derbyniodd gadwyn y swydd oddi wrth y Cyng. Emyr Lloyd oedd yn dod i ben ei dymor fel Cadeirydd. Y Cyng. Chris Evans fydd yr Is-Gadeirydd.

Diolchwyd i Mr. Aneurin Davies am ei waith dros y cyfnod hir y bu'n glerc y cyngor a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Ei olynydd i'r swydd yw Eirian Williams.

Cafwyd Cyfarfod arferol y Cyngor yn union wedi'r Cyfarfod Blynyddol a'r Cadeirydd newydd yn y gadair. Trafodwyd nifer o faterion a derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth y Cyng. Richard Jarman. Mynegwyd diolch iddo am ei wasanaeth ffyddlon yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r Cyngor. Golyga hyn fod sedd wag ar y cyngor ac mae'r drefn o ethol Cynghorwr newydd ar waith o dan arweiniad Swyddfa Gofrestru Cyngor Sir Ceredigion.

Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Eiddyg Jones; Clerc: Eric Williams; Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams; Cynghorydd Sir: Fiona Hughes

Cyfarfu'r Cyngor ar 7 Mehefin 2010

Mynegodd y cynghorwyr anfodlonrwydd fod cwynion am gyflwr y wal ger y Palmant yng Ngwmann yn cael eu hanwybyddu gan y Cyngor Sir. Erbyn hyn gallai fod perygl i gerddwyr. Roedd y clerc i gwyno yn gryf eto.

Cynllunio. Derbyniwyd cais i adeiladu Stafell Haul yn Tŷ Castan, Pencarreg. Nid oedd gwrthwynebiad.

Arolwg. Derbyniwyd gwybodaeth am arolwg o drefniadau etholiadol y Sir. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i faint y Cyngor Sir a ffiniau nifer o'r rhanbarthau etholiadol.

Yr Ombwdsmon. Derbyniwyd parsel o lyfrau swmpus o'r swyddfa yn egluro'r Cod Ymddygiad.

Penderfynwyd cefnogi " Plantos bach " Cwmann i'w galluogi i brynu offer chwarae. Mae 53 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd. Penderfynwyd ar gyfraniad o £300.

Pederfynwyd holi am brisiau gan grefftwyr lleol i wneud gwellianau o amgylch y Gofgolofn.

Y Cyfarfod Blynyddol. Etholwyd Dannie Davies Brynteifi yn Gadeirydd am y flwyddyn a Dorian Davies Esgerdawe yn Is-gadeirydd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5 Gorffennaf 2010.

Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: David Jones; Clerc: Mrs Mair Spate; Cynghorydd Sir: Odwyn Davies.

Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Mai yn Ysgol Y Dderi

Derbyniwyd cais am fin i ddal baw cwn.

Cynhaliwyd y cwrdd misol yn syth ar ôl y Cyfarfod Blynyddol.

Bu trafodaeth ynglyn â'r cynllun datblygu lleol.

Atebwyd yr holiadur oddi wrth y Cyngor Sir yn ymwneud â ffurf y cyfarfodydd gyda'r Cynghorau Cymuned yn y dyfodol.

Atebwyd hefyd holiadur 'Shelter'.

Derbyniwyd y wybodaeth am Gynhadledd Flynyddol 'Un Llais Cymru' a thalwyd y premiwm yswiriant i Aon.

Yn y Cegin gyda Gareth

Gorau o gynnyrch Gorffennaf

Dewch – beth am fentro i'r awyr agored a mwynhau manteision cynnyrch y mis. Awyr las, bwyd braf, a ffrindiau – y cyfuniad perffaith am bicnic. Mae'r cyfan yn y paratoi a'r pacio. Basged llawn, danteithion a 'Diod Cartref', gyda digon o leoliadau hyfryd o fewn dalgylch 'Clonc'. Does dim esgus ond i 'bacio'n pac a phori yn y parc.

O ie! Fe fedrwch ddefnyddio'r cyfan – sicrwydd am bryd hyfryd ond fedra'i ddim sicrhau'r tywydd – mwynhewch y picnic,

Gareth.

Torth Picnic

Cynhwysion

1 torth hirfaen 675 gram
150 gram o ddail salad –roced
200 gram o eog wedi'i smygu a'i sleiso
1 winwnsyn coch wedi'i sleiso
1 llond llwy fwrdd o gaprys (capers)
1 melon wedi'i sleisio'n drwchus
½ ciwcymber wedi'i sleisio'n rubanau
3 ŵy wedi'u berwi'n galed a'u sleisio

Dull

1. Torrwch dop y dorth ar ei hyd, i greu clawr gan grafu y bara o'r canol i greu cragen.
2. Rhowch hanner y dail salad yna mewn haenau yn y dorth, yr eog, caprys, melon, ciwcymber a'r ŵyau, yna gweddill y dail. Rhowch y clawr yn ôl ar y dorth, gwasgwch i'w le.
3. Gorchuddiwch â 'clingfilm,' a chlymwch a chordyn. Rhowch yn yr oergell yn barod i'r picnic.
   (Defnyddiwch y bara i greu 'Queen of Puddings').

Salad 'mas tu fas'.

Cynhwysion

¼ cwpan o olew'r olewydd
2 llond llwy fwrdd o sudd lemwn
1 tun o ffacbys (chick peas)
1 tun o india corn (sweetcorn)
1 llond llwy fwrdd o bersli wedi'i dorri'n fân
1 llond llwy fwrdd o ddail mint
25 gram o olewydd gwyrdd
2 shibwns wedi'u sleiso
1 chilli gwyrdd
½ pupur coch wedi'i dorri'n ddarnau
50 gram o gnau Ffrengig (walnuts)wed'u rhostio

Dull

1. I greu y 'dressing' rhowch yr olew a'r sudd mewn pot jam – cymysgwch. Cadwch yn y fasged a rhowch ar y salad wedi cyrraedd pen y daith.
2. Cymysgwch gweddill y cynhwysion, rhowch mewn powlen gyda chlawr.

Pwdin 'Panna Cotta' i'r Picnic

Cynhwysion

1 liter o hufen chwipio
1 pecyn o gelatine
6 owns o siwgwr caster
½ llond llwy de o flas fanila
1 llond llwy de o groen lemwn
2 lond llwy fwrdd o sudd lemwn

Dull

1. Urwch 8 cwpan plastig gyda dolen
2. Rhowch yr hufen mewn sosban gyda'r gelatine, siwgwr a'r blas fanila; trowch dros dymheredd isel – heb ei ferwi – nes bod y gelatine a'r siwgwr wedi toddi
3. Arllwyswch i jwg yna ychwanegwch y sudd a'r croen lemwn
4. Rhennwch rhwng y cwpanau a'u gorchuddio â cling film. Yna i'r oergell am tua 4 awr neu dros nos
5. Gweinwch yn y picnic gyda ffrwythau ffres yr haf.

MiS y PaPUr NeWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Rhwng un sioe fawr a'r llall

Mae yna gwpwl o wynebau cyfarwydd ar glawr llyfr newydd a llawer mwy o enwau cyfarwydd y tu mewn.

Mae'r ddau ar y clawr erbyn hyn yn sêr teledu, wedi cael sylw gan neb llai (na mwy) na Dai Jones, Llanilar.

Andrew Pentre Siôn yw'r diweddara' o'r ddau ar ôl i Gymru gyfan gael y pleser o weld ei grefft yn cerfio ffyn.

Picton yw'r llall – ar y clawr blaen a cheiliog sgleinddu yn ei law. Mae'n anodd dweud pa un yw'r deryn mwya'.

Nhw yw 'cover boys' ardal Clonc ar gyfer y llyfr sy'n dathlu cysylltiad Ceredigion gyda'r Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Gan ei bod yn flwyddyn nawdd Ceredigion, mae'n ddigon addas mai Ymlaen â'r Sioe yw'r teitl. Ond cyn mynd ymlaen, mae'n rhaid dod o rywle a gogoniant y llyfr ydi'r straeon o'r gorffennol.

Mae yna hen, hen luniau yma - er enghraifft o'r mart yn Llanybydder yn nyddiau'r ceffyl a'r cart - a chobiau a gwartheg sy'n dal i gael eu cofio wrth eu henwau gan bobol na welodd mohonyn nhw erioed.

Ac mae yna enwau ffermydd sy'n treiglo i lawr rhiwiau'r blynyddoedd oherwydd eu llwyddiant yn Llanelwedd a chyn hynny yn y sioe deithiol. Dyma i chi lond llaw o'r ardal yma ... Alltgoch, Cwmhendryd, Maesmynach, Gwarffynnon ... rhai'n rhan o hen draddodiad, rhai wrthi'n creu un newydd.

Doedd y Sioe ddim cymaint o ddigwyddiad yn Sir Gaernarfon. Ar y cyfan, oherwydd y pellter mae'n siŵr, dim ond ffermwyr go iawn oedd yn dueddol o fynd.

Roedd symud i Geredigion yn brofiad gwahanol a'r ffyddlondeb i'r Sioe yn arwydd o sut y mae ffermio hyd yn oed heddiw yn treiddio i bob cornel o fywyd ei chefn gwlad.

Mae Llywydd y Sioe eleni yn arwydd o hynny a Dai Jones, fel Trebor Edwards y llynedd, yr un mor gartrefol ar lwyfan eisteddfod ag yng nghylch y sioe. Yn aml iawn, yr un bobol sy'n amlwg ym maes diwylliant y gair a'r gân ag yn niwylliant y cae a'r clos.

Mae'n bosib gweld tebygrwydd rhwng y grefft o fridio anifeiliaid a sgrifennu cerdd neu ganu ... cymryd y gorau o'r hyn a fu a'i feithrin at bwrpas heddiw. Neu fel Andrew Pentresion yn adnabod ffon pan oedd hi'n ddim ond brigyn.

Roedd hi'n addas felly mai record o enillwyr Rhuban Glas y sir oedd un o'r mentrau i godi arian at y Sioe a bod Eisteddfod yr Urdd wedi landio yn y sir yn yr un flwyddyn yn union. Roedd honno'n eisteddfod wledig, yn ystyr orau'r gair.

Symbol o hynny oedd y byrnau mawr yna oedd yn un o'r meysydd parcio, yn eu bagiau coch gwyn a gwyrdd ac wedi eu pentyrru i wneud patrwm bathodyn yr Urdd. Un diwylliant yn fynegiant o un arall.

Ar ei gorau, dyna mae'n siŵr ydi cryfder cefn gwlad, y ffaith fod yno ddiwylliant crwn a phethau'n perthyn i'w gilydd. Am hynny yr oedd Waldo Williams yn arfer sgrifennu yn rhai o'i gerddi – trwy'r cynaeafu a'r cneifio yr oedd yn gwneud sens o'r byd.

Mae yna wendidau, wrth gwrs – mae yna gythraul canu mewn eisteddfod ac mae'n siŵr bod cythrau cyrlio yn sied y gwartheg. Ryden ni'n aml yn blwyfol a does dim byd tebyg i bwyllgor am greu ffrae.

Ond mae apêl Sioe'r Cardis a'r Eisteddfod cyn hynny yn arwyddion o bobol sydd â syniad pwy ydyn nhw ac yn gwybod sut i gydweithio i wneud i bethau ddigwydd. Ac yn well fyth pan fyddan nhw'n naturiol Gymraeg.

Yn addas iawn, llun a phwt am y Ffermwyr Ifanc sydd ar dudalen olaf Ymlaen â'r Sioe. Roedd llawer ohonyn yr un mor amlwg ar gaeau Llanerchaeron ag y byddan nhw yn Llanelwedd ac ym mhentre'r bobol ifanc.

Wedi'r cyfan, mae'r gair Ymlaen yn awgrymu parhad – a datblygiad hefyd.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd dros wyliau'r hanner tymor. Bu nifer o'n disgyblion yn cystadlu, yn cyfrannu i'r seremoniau ac yn perfformio yn y sioe 'Plant y Fflam'.

Llongyfarchiadau hefyd i Elliw Dafydd o flwyddyn 11 ar ennill ail a thrydydd yn y gystadleuaeth Rhyddiaith o dan 19.

Diolch i'r staff, rhieni a disgyblion am eu cefnogaeth ond yn arbennig i Mrs Gillian Hearne, Mrs Lena Daniel, Mrs Elinor Howells, Mrs Delyth Hopkin Evans a Miss Sally Saunders am eu gwaith caled yn hyfforddi'r disgyblion.

Llongyfarchiadau mawr i Megan Jenkins o flwyddyn 10 a ddaeth yn drydydd yn rownd derfynol y gystadleuaeth 'Cogurdd' ar faes yr Eisteddfod yn Llanerchaeron.

Llongyfarchiadau gwresog i'r chwe disgybl sydd wedi cael eu hethol yn brif swyddogion ar gyfer 2010-2011. Ben Lake ac Elliw Dafydd yw'r Prif Fachgen a'r Brif Ferch a Zola Kopacsi, Elen Thomas, Catrin Thomas a Megan Holt yw'r dirprwyon.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â dau aelod o staff. Bu Pennaeth yr Adran Gelf, Mr Len Ebenezer, yn dysgu yn yr ysgol am 26 mlynedd a Mr Michael Morris, Pennaeth Cynorthwyol a Phennaeth yr Adran Addysg Grefyddol, am 13 o flynyddoedd. Diolchwn yn fawr iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr dros y blynyddoedd. Dymunwn ymddeoliad hapus i Mr Ebenezer a dymunwn bob lwc i Mr Morris yn ei swydd newydd fel dirprwy yn Ysgol Aberaeron.

Cafodd y disgyblion canlynol o flwyddyn 8 dystysgrifau teilyngdod mewn cystadleuaeth fathemategol :- Aliya Azman, Billie Davies, Rebecca Messer, Luigi Challis, Christopher Barker, Peter Hurton, Kamil Drozd, Roxanne Morgan-Auckland, Alysha Warburton, Ellie Pitchford, Hannah Evans, Gethin Morgan, Rhys Jones, Gareth John, Hannah Cooper, Melissa Davies, Jaeger Petry a Finn Gale.

Cafodd Aliya Azman glod arbennig am ei hymgais. Da iawn ti.

Yn ogystal, daeth llwyddiant i bum disgybl yn yr 'UK Junior Maths Challenge' Enillodd Billie Davies wobr Arian a Finn Gale, Peter Hurton, Luigi Challis a Roxanne Auckland- Morgan wobrau Efydd. Arbennig.

Bu aelodau o flwyddyn 9 ar daith i Ffrainc a Gwlad Belg yn ddiweddar i ymweld â ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafwyd amser diddorol iawn yn ymweld â mynwentydd yn cynnwys Artillery Wood, lle mae bedd y Prif Fardd Hedd Wyn, y fynwent Almaeneg, Langemark, Thiepval, Tyne Cot a pharc coffa Beaumont Hamel.

Ymwelwyd hefyd â choedwig Mametz a chofeb y Ddraig Goch, sy'n coffau'r Cymry a fu farw yno. Bu'r disgyblion hefyd yn amgueddfa 'Flanders Field' yn Ypres, Hill 62 ac yn seremoni y 'Last Post' ger cofeb y Menin Gate.

Cafwyd cyfle hefyd i ymlacio gan chwarae gêm o fowlio deg a gwneud ychydig o siopa ar y ffordd adref yn Calais.

Bu'r daith yn un llwyddiannus dros ben a chafwyd llawer o sbri hefyd. Canmolwyd y disgyblion am eu hymddygiad ardderchog a'u brwdfrydedd. Diolch i'r staff wnaeth gynorthwyo ar y daith ond yn arbennig i Mrs Anwen Jones am drefnu'r cyfan.

Erbyn hyn, mae pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch wedi ymweld â'r ysgol fawr i gael rhagflas o fywyd yr ysgol, gan fynychu nifer o wersi gwahanol. Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu nôl i'r ysgol gyda'ch rhieni cyn diwedd y tymor ac i'n plith yn swyddogol ym mis Medi.

Ar ddiwedd mis Mai, cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol a chafwyd diwrnod cyffrous a llwyddiannus iawn wrth i'r tri thŷ sef Creuddyn, Dulas a Theifi gystadlu'n frwd am gwpan yr enillwyr. Ar ddiwedd diwrnod llawn a hwylus o gystadlu, Dulas ddaeth i'r brig.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn athletau'r Sir. Bu nifer o'n disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Y cyn Gadeirydd y Cyng Emyr Lloyd, Y Glyn yn trosglwyddo Cadwyn y Cadeirydd i'r Cadeirydd am y flwyddyn nesaf sef y Cyng John B.Williams, Brynamlwg yn y Pwyllgor Blynyddol o Gyngor Cymuned Llanwnnen. Hefyd yn y llun mae ein Clerc newydd sef Mrs Eirian Williams, Y Ficerdy, Llambed.

Llanwnnen

Penblwyddi Arbennig

Dathlodd Mrs Eleri Hammond, Llain-delyn benblwydd arbennig ac hefyd Hyw Davies, Ornant ei ben-blwydd yntau yn 80 oed.

Llongyfarchiadau

Pan gyhoeddwyd enwau y rhai a fydd yn cael ei hurddo yn yr Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy yn ystod mis Awst gwelwyd fod Carol Mair Thomas, 1 Sycamore Teras wedi ennill lle yn yr Orsedd ar gyfrif eu graddau yn cynnwys astudiaethau Cymraeg neu Gerddoriaeth. Bydd yn cael ei hurddo ar fore Llun cyntaf yr Ŵyl.

Diolch

Dymuna Hyw Davies, Ornant ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar y trydydd o Fehefin. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Sefydliad y Merched

'Cegin Gareth' yn Goedwig oedd man cyfarfod Mehefin i aelodau Sefydliad y Merched Llanwnnen. Cafwyd croeso cynnes iawn gan Gareth gyda phawb wrth eu bodd gyda'r ddiod ysgafn o Flodyn yr Ysgawen. Mwynhawyd arddangosfa hyfryd o goginio ar gyfer yr Haf, ryseitiau am de prynhawn neu bicnic os bydd y tywydd yn caniatau. Te prynhawn oedd i fod i ni y diwrnod hyn a chafwyd gwledd wrth flasu'r danteithion oedd wedi ei paratoi yn y gegin ac ambell un arall hefyd. Roedd 'meringues' Gareth yn fendigedig.

Diolchodd ein llywydd Mrs Gwen Davies i Gareth am brynhawn difyr a hwyliog iawn. Enillwyd cystadleuaeth y mis gan Mrs Mary Davies a Mrs Alice Davies.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Angharad James, Castell Du ar ennill gwobr 'Myfyriwr y Flwyddyn' Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Bydd yn cael ei gwobrwyo yn y Sioe Frenhinol ar y dydd Llun. Hefyd enillodd gwobr 'Ben Evans Award' yng Ngholeg Amaethyddol Gelli Aur. Da iawn ti Angharad.

Ysgol Llanwnnen

Ymfalchiwn yn llwyddiant un o'n cyn-ddisgyblion sef Gwawr Jones, Meysydd a ddaeth yn 3ydd yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod yr Urdd. Braf oedd gweld 6 o ddisgyblion yr ysgol ar lwyfan y Pafiliwn yn perfformio 'Lledrih Llew' a rhai o'r cyn-ddisgyblion yn 'Plant y Fflam' hefyd.

Bu dosbarth Mrs Llwyd am daith addygiadol i Gei Newydd ar ddydd Gwener, Mehefin 11eg i gymharu dwy ardal. Aethpwyd i ymweld â'r Bad Achub a chafwyd amser i chwarae ar y traeth.

Ar yr un diwrnod roedd twrnament Pêl-droed a Rownderi Cylch Llambed ar gaeau Ysgol Ffynnonbedr. Roedd dau dîm rownderi ac un tîm pêl-droed o Llanwnnen yn cystadlu. Cafwyd diwrnod da iawn o gêmau da iawn. Aeth y ddau dîm rownderi i'r rownd gyn-derfynol ond colli fu eu hanes. Hefyd aeth y tîm pêl-droed i'r ffeinal ond collwyd yn erbyn Carreg Hifaen. Da iawn chi blant.

Bu Phil Thomas yn casglu siec o £567.00 tuag at Tŷ Hafan yn ystod y mis hefyd. Cafwyd diwrnod o wisgo lawr a thaith feicio yn ddiweddar.

Cynhaliwyd Mabolgampau blynyddol yr ysgol ar brynhawn braf o haf ar ddydd Mercher, Mehefin 16eg. Daeth tyrfa dda o rieni a ffrindiau'r ysgol i gefnogi hefyd. Y tŷ buddugol oedd 'Teifi' a'r capteniaid oedd Ffion Jenkins a Cerian Jenkins. Rhoddwyd y darian i'r merched gan Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr Mrs Lynwen Holmes. Hefyd, rhoddwyd medalau i'r bechgyn a'r merched yn y gwahanol flynyddoedd gan Huw a Lynwen Jenkins, Llysfaen Uchaf: Derbyn a Meithrin: Lilly Smith, Gruffydd Tomos a Iolo Mackay. Bl. 1 – Catrin Jones a Meirion Lloyd. Bl. 2 – Carwyn Rosser.Bl. 3 – Heledd Jenkins a Lewis Jarvis-Blower. Bl. 4 – Gwenllian Jenkins, Daniel Jones a Jamie Lamport. Bl. 5 – Ellen Jones a Twm Ebbsworth. Bl. 6 – Paloma Kalydy a Joshua Newton-Jones.

Am yr wythnos 21 – 25ain o Fehefin bu holl ddisgyblion Bl. 5 a 6 lawr ym Mhentywyn. Cawn yr hanes yn rhifyn mis Medi.

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol ffarweliwn â phump o ddisgyblion hyfryd sef Ffion Jenkins, Sophie Herron, Cerian Jenkins, Paloma Kalydy a Joshua Newton-Jones a fydd yn dechrau yn Ysgol Gyfun Llambed ym mis Medi. Pob hwyl i chi a chofiwch ddod nôl i'n gweld. Bydd croeso i chi yn ysgol Llanwnnen bob amser.

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Sylwadau ar ddyrnaid o enwau lleoedd ym Mro'r Eisteddfod Genedlaethol

Glynebwy

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ar safle a elwir 'y Gweithfeydd', sef safle'r hen waith dur ar gyrion tref Glynebwy, a safle sy'n bwysig iawn yn hanes diwydiannol Cymru gyfan. Erbyn hyn y Gweithfeydd yw un o'r prosiectau adfywio mwyaf yn Ewrop ac mae hyder yn dychwelyd i bentrefi bychain y fro ac i dref Glynebwy.

'Dyffryn cul' yw ystyr yr elfen gyntaf yng Nglynebwy ac ystyr yr enw felly yw 'dyffryn cul (afon) Ebwy'. Mae'r elfen Ebwy yn gywasgiad o ddwy elfen sef yr 'eb-'sy'n golygu 'ceffyl' ac a geir hefyd yn 'ebol'; tardda'r ail elfen o 'gwydd' sef 'gwyllt'. Mae Ebwy felly yn perthyn i ddosbarth o enwau nentydd ac afonydd sy'n cynnwys enw creadur.

Datblygodd y dref ei hun ar safle dwy fferm a elwid Pen-y-cae a Ty'n-llwyn ar lan ddwyreiniol yr afon ym mhlwyf Aberystwyth. Tan tua 1836 mae'r enw'n amrywio rhwng Ebwy Vale, Pen-y-cae a Chwm Penycae. Ond Ebbw Vale oedd y dewis enw ar gyfer y gwaith haearn lleol, the Ebbw Vale Ironworks. Olynwyd hwnnw yn 1864 gan The Ebbw Vale Iron and Coal Co. Yn 1791 roedd y gwaith yn eiddo i Harford, Partridge and Co o Fryste ac fe'i gelwid yn lleol yn Harford's – enw ar deulu sy'n ddigon amlwg yn hanes tref Llanbedr Pont Steffan.

Ffurfir afon Ebwy Fawr gan amryw nentydd yn ardal Beaufort; tardda Ebwy Fach ger Bryn-mawr. Una'r ddwy afon gerllaw Aber-bîg 'aber (afon) Big'. Mae Big yn anodd. Mae'n bosibl ei fod yn cynrychioli enw person a bod modd ei gysylltu ag Afon Buga yn Sir Drefaldwyn a Bryn Buga yng Ngwent. Mae'n draddodiadol cysylltu enw Buga â thraddodiad am gawr. Ond mae'r cyfan hyn yn bur niwlog ac ansicr.

Blaenau Gwent

Yn fanwl gywir mae'r enw Blaenau Gwent (ucheldir Gwent) yn dynodi ucheldir Sir Fynwy gyfan – ardal sy'n estyn o gwm Rhymni i gyffiniau'r Fenni. Mae'r enw Gwent, hen deyrnas Gwent, yn tarddu o Caer-went a elwid yn Venta yn y 3edd ganrif. Daeth y deyrnas hon i fod yn y cyfnod yn union ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid. Yn ôl pob tebyg cafodd Caer-went ei sefydlu tua 120 wrth i filwyr ymadael am Fur Hadrian, gan greu'r angen am drefniadau gweinyddol newydd ar gyfer y rhan hon o'r de-ddwyrain.

Anodd penderfynu a yw 'venta' yn ffurf Geltaidd ynteu'n ffurf Ladin. Mentrodd Syr Ifor Williams awgrymu'r ystyr 'maes, cae' i 'venta'.

Daeth teyrnas Gwent i ben yn dilyn ymgyrchoedd gan William Fitz Osbern, Iarll Henffordd (m. 1071); adeiladodd hwn nifer o gestyll i ddiogelu ei diroedd newydd gan gynnwys Cas-gwent, sy'n sefyll ar lecyn trawiadol iawn uwchlaw afon Gwy.

Rhwng 1536 a 1974 roedd Gwent yn cynnwys y rhan helaethaf o'r hen Sir Fynwy ond yn 1974 daeth Sir Fynwy yn sir Gwent. Cafodd sir Gwent hithau ei diddymu yn 1996 pan ddaeth Blaennau Gwent, Casnewydd a Thorfaen yn fwrdeistrefi sirol, Mynwy yn sir ac Islwyn yn rhan o fwrdeistref sirol Caerffili. Sut bynnag, yng nghanol holl ddryswch newid ffiniau llywodraeth leol, diogelwyd yr enw Gwent ar gyfer gwasanaethau cyfun fel yr heddlu ac Archifdy'r Sir; fe'i cynhwysir yn ogystal yn elfen yn enw'r tîm rhanbarthol sy'n chwarae rygbi deniadol ar faes Rodney Parade.

Beaufort

Mae Beaufort yn haws i'w esbonio. Datblygodd y gymuned hon yn wreiddiol yng nghysgod y gwaith haearn (a elwid Beaufort Works) a sefydlwyd ar fferm Gwaun Ebwy gan Edward Kendall, Jonathan Kendall a Joseph Latham ar lês gan Ddug Beaufort yn 1779. Roedd Beaufort Arms Inn yma ar un adeg at wasanaeth y sychedig rai. Yr un teulu o grach a goffeir yn Dukestown. Yr enw Cymraeg ar Beaufort yw Cendl, enw sy'n coffáu'r hen feistri haearn a gafodd y lês yn y lle cyntaf gan Ddug Beaufort.

Phillipstown

Rhan o Dredegyr Newydd yw Phillipstown a enwyd ar ôl Nehemiah Phillips (1845-1929), rheolwr gwaith glo, cynghorydd sir a phregethwr gyda'r Bedyddwyr. Coffáu Edmund Hannay Watts (1830-1902) un o bartneriaid y cwmni glo Watts, Watts and Co a wna Wattsville a Wattstown.

Fleur-de-lys

Ger Pengam mae pentref Fleur-de-lys. Yno y sefydlwyd cymuned gan J H Moggridge, bonheddwr blaengar o Sais a'i fryd ar wella amodau byw'r gweithwyr. Trelyn sef 'pentref ar bwys llyn' yw enw Cymraeg y pentref a'r elfen 'llyn' yn cyfeirio at bwll yn afon Rhymni gerllaw. 'Trelyn' mae'n siwr oedd yr enw gwreiddiol ar y pentref. Yn ôl traddodiad, tardda'r enw Ffrengig o'r gwaith sinc a sefydlwyd yn New Inn gan ffoaduriaid o Ffrainc. Ond mae'n fwy tebygol i enw tafarn yn y cyffiniau ledu i fod yn enw lle, fel yn achos Rhyd-y-blew isod. Ceisiodd Moggridge weithredu ei weledigaeth gymdeithasol yn ogystal yn y Coed-duon ac am gyfnod byr gelwid y pentref hwnnw'n Tremoggridge cyn mabwysiadu'r enw Coed-duon (a Blackwood) ar ôl coedwig ar gyrrion y pentref.

Rhyd-y-blew a Carmeltown

Mae'r ddau enw Rhyd-y-blew a Carmeltown yn ffefrynau mawr gen i ymhlith enwau lleoedd Blaenau Gwent - ac mae'r ddwy ffurf yn dal i gael eu harddel ym mro'r eisteddfod. Codwyd capel Carmel yn 1821 a chyn hynny roedd yr Annibynwyr yn cwrdd yn nhafarn Rhyd y Blew, yn nesaf at y safle lle y codwyd y capel. Mae'r ffurf Carmeltown yn enghraifft hollol unigryw o '-town' yn cael ei ychwanegu at enw capel i ffurfio enw lle. Mae Rhyd-y-blew hefyd yn enghraifft lawn mor ddiddorol - tafarn ag iddo enw Cymraeg yn datblygu'n enw lle.

Enw mwy gogleisiol o ryw ychydig, mwy gogleisiol hyd yn oed na Rhyd-y-blew, yw 'Codiad Aneurin Bevan'.

Mae CLONC ar werth yn:

Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambed
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llangybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Alec Page Gof

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955

WILLIAMS
CONTRACT SERVICES CYF
Peiriannau Hirio, Peirianwyr Cyffredinol, Gwaith Sylfaen, Menage, Tirlunio, Garddio, Ffensio, Adeiladu a Gwaith Cynnal a Chadw
Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555
Tŷ Mari, Heol Horeb, Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk
Y we: www.williamscontractservices.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr

Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO AA A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
01570 422893 / 422175

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl- Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder,

Annwyl Ffrindiau,

Sut ydych chi heddiw? Rwyf wedi bod yn bola heulio yn yr ardd. Mae fy nghragen fach lwyd yn frown braf! Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r holl dywydd bendigedig rydym wedi cael yn ddiweddar. Rydw i wrth fy modd yn bwyta hufan ia oer ar ddiwrnod braf a chwarae ar lan y môr gyda fy ffrindiau.

Wel, roedd y lliwio yn arbennig y mis hwn, gyda chlod arbennig yn mynd i Rhodri Jac o Lanybydder, Ioan Evans o Bontsian ac Elen Medi o Lanbed. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Owen Heath, 7 Bryn-yr-eglwys, Llambed. Llongyfarchiadau mawr ichi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfon ataf erbyn dydd Mercher 18fed o Awst 2010.



Enillydd y mis!

Owen Heath



Enw:

Cyfeiriad:

Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed

Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref 2011.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerâu digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Am y flwyddyn nesaf, bydd cystadleuaeth ffotograffiaeth yn Clonc. Gofynnir am lun o olygfa yn yr ardal am yr amser hwnnw o'r flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn a rhifyn Medi, rydym yn chwilio am luniau'r haf. Ac o hynny ymlaen bydd angen lluniau i gynrychioli'r Hydref, Gaeaf a'r Gwanwyn.

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau. Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i cystadleuaeth@clonc.co.uk Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw: **Dydd Iau 19eg Awst.**

Cystadleuaeth Calendr Clonc

Llongyfarchiadau i Luned Medi Jones, Blaenwaun-Ganol, Blaencwrt am gyflwyno lluniau ar gyfer y calendr y mis diwethaf. Mae gwobr yn y post. Ewch ati eto dros yr haf i dynnu lluniau yn yr ardal. Rhoddir gwobr bob mis am y flwyddyn nesaf a dewisir y lluniau gorau gan Fwrdd Busnes Clonc ar gyfer eu cyhoeddi yn y calendr ar gyfer y flwyddyn 2012.

Cystadleuaeth Stori Sydyn

Llongyfarchiadau i Dai Williams, Dolaugwyrddion, Pentrebach ar ennill pedwar llyfr o'r gyfres newydd Stori Sydyn mewn cystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf o Clonc. Mwynhewch y darllen.

Cri Oesol y Gymdogaeth Goll

Ma' nhw'n gwrando dim. Ry' ni'n neb. Dyma grioedd pobloedd di-rym, crioedd sy'n gyfarwydd iawn i ni yn y Gymru sydd ohoni. Ym mis Mehefin, 1940 gwelsom ba mor greulon y gall y 'gyfundrefn ddemocrataidd' fod pan mae cymdogaeth fach ymylol yn rhwystro bwriad y grym canolog. Lladdwyd Cymdogaeth Gymreig Epynt gan y Wladwriaeth Brydeinig. Er i rai amau ynghynt fod rhyw ddrygioni ar droed, daeth y rhybudd ffurfiol cyntaf fod y 220 o Gymry a drigai yn y 54 o ffermydd i'w dadwreiddio, a hynny yn enw y rhyfel 'dros genhedloedd bychain Ewrop' chwedl llywodraeth Prydain Fawr. Yn ystod yr wythnosau nesaf mi fydd Cwmni Cydweithredol Troedyrhiw yn gweithredu act nesaf eu rhaglen o gofio am y gymdogaeth a gollwyd ac a anghofiwyd sef taith DIWEDD Y BYD – digwyddiad theatrig a berfformir mewn capeli yn unig. 'Trwy wahodd cynulleidfaoedd i grynhoi mewn capeli ry' ni'n eu gwahodd i geisio ail-gamu gyda ni dros drothwy y gymdeithas a gollwyd. Wrth geisio disgrifio DIWEDD Y BYD dywed Euros Lewis nad drama mohoni. Y gair agosaf at ddisgrifio uchelgais y gwaith yw cydymdeimlo. Yn wir y mae'r act o gydymdeimlo yn ein cysylltu'n uniongyrchol – yn chwaraewyr ac yn gynulleidfa - â'r diwylliant a ddiddymwyd pan ysbeiliwyd y gymdogaeth hon.

Priodas Dda...

Beca merch John a Beryl Hands o Landysul a Llion mab Gareth ac Eleanor Russell, Bryncelyn, Cwmann a briodwyd yn Eglwys Sant Tysul, Llandysul ar y 5ed o Fehefin. Cafwyd y wledd briodas yn y Brifysgol yn Llambed.

LAS Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion. SA48 8LT

CYFRi
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305

Byd y Campau . . .

Mae tîm Rygbi 7 Bob Ochr Yr Spartaniaid Llambed, newydd dderbyn Crysiau T newydd a noddwyd gan Morgan and Davies.

Yn y llun mae'r Chwaraewyr Steffan Morgan a Gary Davies, ac Andrew Morgan o Morgan and Davies.

Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr a fu'n llwyddiannus yn rasys trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd. Daeth Grace, Francesca a Cerys (gyda medalau) yn ail fel tîm dros Gymru.

Tîm Pêl-droed Merched Ysgol Llanwnnen a enillodd Twrnament Sefydliad y Merched Ceredigion a gynhaliwyd yn Nhregaron ar nos Lun, Mehefin 14eg. Aelodau'r garfan oedd: Catrin Rosser, Paloma Kalydy, Heledd Jenkins, Cerian Jenkins, Gwenllian Jenkins, Ellen Jones a Heledd Jones.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Llambed a fu'n llwyddiannus iawn mewn twrnament yn ddiweddar.

Sêr y dyfodol...

Bûm yn ffodus i gael fy newis yn aelod o gast Sioe Ieuenctid Ceredigion Eisteddfod yr Urdd 2010 sef Plant y Fflam. Cynhyrchiad oedd hwn yn seiliedig ar albwm olaf y grŵp pop, Edward H. Dafis. Taith yw'r albwm sy'n chwilio am y Tir Glas sy'n symbol o fywyd gwell. Roeddwn ni'n fwy cyfarwydd â chaneuon y grŵp, megis Tŷ Haf, Mistar Duw a Pishyn. Buan iawn des yn gyfarwydd â chaneuon Plant y Fflam ac erbyn hyn rwy'n eu canu'n aml gan yrru Mam a Dad lan y wal!

Dechreuodd y cyfan nôl ym mis Mawrth ac i ni o'r ardal hon yn Theatr Felin-fach. Doedden ni ddim yn siŵr iawn beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnod y clyweliadau, ond roedd disgwyl i ni gymryd rhan mewn nifer o ymarferion perfformio. Roedd yn gyfle gwych i ddod i adnabod nifer o'r ymgeiswyr eraill a phawb yn awyddus i blesio. Treuliom brynhawn cyfan yn gwneud ymarferion canu, dawnsio ac actio. Mewn rhai diwrnodau, cyrhaeddodd lythyr i Gwarffynnon yn dweud fod Aron a fi wedi cael rhan yng nghast y Sioe.

Cwta ddeufis oedd gennym i baratoi'r Sioe, ond rhwng ymarfer bob dydd yn ystod gwyliau'r Pasg a phenwythnosau o waith caled, fe lwyddom i gael dau ben llinyn ynghyd a chreu cynhyrchiad roeddwn i a gweddill y cast yn mwynhau ei berfformio mas draw! Doedd dim un ymarfer yr un peth ac roedd rhaid i rai cymeriadau gael eu galw i wahanol ymarferion. Roeddem ni'n cael llawer o hwyl ynddynt ac yn wir, roeddwn yn edrych ymlaen at benwythnosau'n fawr er mwyn parhau â'r prosiect. Erbyn hyn, dw i ddim yn siŵr beth i wneud â fy hun, dw i ar goll heb 'Plant y Fflam'!

Golygai hyn dipyn o ymroddiad oddi wrth bob un o'r cast a bu rhaid aberthu nifer o weithgareddau eraill. Ond er ei bod yn golygu colli ambell ddigwyddiad neu'i gilydd, roedd werth bob eiliad! Teimlais yn gartrefol iawn ymhlith gweddill y cast. Oherwydd, ein bod yn gast weddol fach, roeddem ni'n dod i adnabod pawb yn dda a gwnes ffrindiau a fydd gyda mi am byth. Yn ogystal â chymdeithasu, mi gefais brofiadau bythgofiadwy. Un ohonynt oedd gweithio gyda thîm cynhyrchu proffesiynol Arad Goch. Roedd cael gweithio mewn awyrgylch broffesiynol yn brofiad gwerthfawr iawn i mi ac fe ddysgodd i mi sut i ddisgyblu fy hunan ac i barchu gwaith pobl eraill. Roedd gweithio gydag ieuenctid pob ardal yng Ngheredigion wedi bod yn her, ond yn sialens oedd werth ei chymryd. Roedd adegau lle'r oedd cadw'r ddisgyl yn wastad rhwng y sioe a gwaith ysgol a phethau eraill yn anodd, ond mae'n rhaid manteisio ar bob cyfle.

Ymunodd Dewi Pws a Cleif Harpwood â ni yn nifer o'r ymarferion, felly fel y gallwch ddychmygu, cawsom ein siâr o chwerthin!

Pan glywais nad oeddem yn ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod ces beth siom. Ond wrth i'r llenni agor ar y perfformiad cyntaf, gwyddwn fod dewis y theatr wedi bod yn ddewis doeth. Roedd gweld pob cadair yn llawn ar y noson agoriadol a phob un o'r chwe pherfformiad arall, yn brofiad gwefreiddiol iawn. Roedd yr awyrgylch yn Theatr Felin-fach yn cyfrannu at naws y sioe. I mi, rhan orau'r Sioe oedd gweld y plant iau yn cerdded i lawr y grisiau gan ymuno gyda ni i ganu 'Dewch at eich gilydd'. Cefais ias lawr fy nghefn ym mhob un o'r saith perfformiad. Ond wrth gwrs, cawsom gyfle i ganu un o'r caneuon yn y Sioe agoriadol ar lwyfan yr Eisteddfod.

Mae'r cyfle wedi galluogi ni fel pobl ifanc i ddatblygu ein hunan hyder ac i ehangu ein gorwelion drwy ddysgu gwahanol dechnegau a sgiliau.

Yr un yw'r neges heddi fel yr oedd hi pan gyhoeddwyd yr albwm nôl yn yr 80au sef ein rôl ni, y bobl ifanc wrth warchod ein hiaith a'n diwylliant a sicrhau ein dyfodol.

Mi glywais ambell berson yn dweud mai Eisteddfod yr Urdd 2010 Ceredigion oedd yr Eisteddfod orau iddynt fod ynddi erioed. Llawn gytunaf â nhw! Mi roedd Eisteddfod y Cardis yn fythgofiadwy i mi. Croeso cynnes iawn yw croeso'r Cardi.

Elliw Dafydd

Cefais y fraint o fod yn Tomos Llewelyn, sef un o brif gymeriadau sioe Urdd i blant ysgolion cynradd Ceredigion sef Lledrith Llew. Roedd hyn yn golygu llawer o waith dysgu sgript, caneuon a dawnsfeydd. Cynhaliwyd ymarferion pob penwythnos am tua 12 wythnos yn cynnwys diwrnodau yn ystod gwyliau'r Pasg! Roedd yn waith caled ond yn brofiad ardderchog.

Wedi ymarfer yn Felinfach a Bont doedd dim syniad 'da ni pa mor fawr fyddai'r llwyfan yn Llanerchaeron. Ond wedi cyrraedd y pafiliwn a dechrau ymarfer yno 'wow!'. Pan gerddais ar y llwyfan ddydd Mawrth, y 1af o Fehefin i'r perfformiad cyntaf roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn, a'r unig beth oedd ar fy meddwl oedd, "A yw hwn yn mynd i fynd yn iawn?". Aeth y sioe yn grêt, trannoeth roedd pobl yn dod lan ataf i ddweud pa mor dda oedd y sioe.

Ar y dydd Mercher cefais y cyfle i fod ar y soffa siarad a chwrdd â Nia Roberts! Roedd hwn yn anhygoel, cael fy nghyfweld yn fyw ar y teledu am y tro cyntaf.

Ebryn y perfformiad nos Fercher roeddwn yn teimlo'n llawer fwy cartrefol ar y llwyfan a theimlais fy mod wedi ymlacio yn fwy.

Mae'r sioe wedi bod yn brofiad arbennig i mi, ni feddylias adeg y clyweliad mae fi bydde un o'r prif cymeriadau ond rwyf yn ddiolchgar i bawb oedd yng nghlwm âr sioe am roi'r cyfle i mi. Bydd yr atgofion gennyf am byth ynghyd â'r holl ffrindiau newydd rwyf wedi eu gwenud o bob cŵr o'r sir.

Iwan Evans

Grŵp Dawnsio Cyfrwng Cymysg Ysgol Ffynnonbedr a gipiodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron.

Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr a gafodd 2il am yr Unawd Bl.3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Lowri Davies, Ysgol Ffynnonbedr a dderbyniodd 'Tlws Ted Breeze Jones' am waith ffotograffiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.